# SOTHACH

*Rhif 46*
*Tachwedd*
*1992*




**ONE STYLE MDV**
**RHYNGWLADOL**

**MONIARS**
**TEITHIO IWERDDON**

**JOHN CALE**
**Y GYSTADLEUAETH**

**£1.00**
**PUNT**

FIREBRAND / PARK PROMOTIONS
YN CYFLWYNO - PRESENT

YN


# NEUADD BRANGWYN

# ABERTAWE

I DDECHRAU AM
8.00PM

**LLUN, TACHWEDD 23**

TOCYNNAU £7.00
SWYDDFA DOCYNNAU (0792) 302 489
DEREKS RECORDS (0792) 654 226



# JOHN CALE

## A CHEFNOGAETH - AND SUPPORT

AR Y CLAWR: TYNAL TYWYLL LLUN: ROLANT DAFIS

# SOTHACH

RHIF 46 TACHWEDD 1992 £1.00

**SIART CYTGORD**
Lan a lawr
**TUDALEN 4**

**BARN Y BOBL**
O'r diwedd
**TUDALEN 5**

**PIGION PIWSIG - PIGION PELLACH**
Newyddion - Bargeinion -Teithiau - Tapiau - Crysau-T
**TUDALEN 6 - 7**

**TAITH I'R IWERDDON**
Draw dros y don
**TUDALEN 8**

**ONE STYLE MDV**
Cyfweliad
**TUDALEN 10**

**HEI BEIBI**
Un arall yn y gyfres o archwiliadau
**TUDALEN 11**

**ADOLYGS BYW**
Ffa Coffi Pawb - Gorkys - Diffyg Parch - Y Cathod - Dave Sharp
**TUDALEN 14**

**CYSTADLEUAETH JOHN CALE**
Cyfle i ennill CD newydd sbon danlli!
**TUDALEN 16**

**ADOLYGIADAU**
Toman
**TUDALEN 17**

**ANNWYL SOTHACH!**
+
**TUDLEN 22**

**CATALOG ROC**
Prynwch
**TUDALEN 23**

SOTHACH!, 8 RHES VICTORIA, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3AG.
FFÔN : (0248) 600 578 FFACS : (0248) 600 587



*BRYCHAN*



*MONIARS*



*ONE STYLE*



*BOB DELYN A'R EBILLION*

NID YW'R GOLYGYDDION NA'R CYHOEDDWR O ANGENRHEIDRWYDD YN CYDWELD A PHOB SAFBWYNT A FYNEGIR GAN EIN CYFRANWYR. CYHOEDDWYD GAN GWMNI CYTGORD CYF. AC ARGRAFFWYD GAN O. JONES, LLANGEFNI.

ⓗ 1992 CWMNI CYTGORD CYF. 1992 © CEDWIR POB HAWL. NI ELLIR ATGYNHYRCHU UNRHYW RAN O'R CYHOEDDIAD HWN NA'I GADW MEWN CYFUNDREFN ADFERADWY NA'I DROSGLWYDDO MEWN UNRHYW DDULL NA THRWY GYFRWNG ELECTRONIG, MECANYDDOL, FFOTOGOPIO, RECORDIO, NA FEL ARALL, HEB GANIATAD YMLAEN LLAW GAN Y CYHOEDDWYR.

# UGAIN UCHA
## Siart Cytgord

1. BEGANIFS (6)
2. STEVE EAVES A'I DRIAWD (3)
3. GERAINT JARMAN (1)
4. DAFYDD IWAN (2)
5. MONIARS (8)
6. MEIC STEVENS (16)
7. SOBIN A'R SMAELIAID (7)
8. Y CYRFF (4)
9. JESS (12)
10. WWZZ (-)
11. JAC Y DO (-)
12. DIFFINIAD (-)
13. TYNAL TYWYLL (13)
14. TŶ GWYDR (-)
15. EIRIN PERYGLUS (-)
16. FFA COFFI PAWB (14)
17. 4 YN Y BAR (-)
18. ANHREFN (9)
19. HOGIA LLANDEGAI (5)
20. BYD NEWYDD (17)



BEGANIFS




MEIC STEVENS



EIRIN PERYGLUS



FFA COFFI PAWB



BYD NEWYDD

**BARN Y BOBL**

***O'R DIWEDD***

Yn y dyddiau gogoneddus hyn lle gwelir penawdau bras y newyddion yn dibrisio hanes y newyn yn yr Affrig er mwyn gwneud lle i'r dibrisio enbyd ar y bunt Brydeinig. Tra mae lluniau o blant bach yn marw yn cael eu hanghofio er mwyn i ni, y kids, gael gweld y pryder sydd ar wyneb y dynion-siwts-pryd-lwyd a ffon wrth bob boch wedi iddynt golli ychydig filiynnau.... mae'n braf gweld fod gennym ni, y kids go iawn, yng Nghymru rywbeth i ymfalchio ynddo,- ffyniant y sin roc Gymraeg (neu S.R.G. i'w gyfeillion).

Meddyliwch o ddifri pa mor iach ydy pethau. Gyda Cyngor Roc ar y ffordd; gwasanaeth radio hwyrol clodwiw; rhaglenni o safon tiwbaidd ar y teledu; Cyfrwng i leisio barn yn y tudalennau hyn ac yn y Cymro,Golwg,Barn; Y Sgrin Roc yma o hyd;tri cwmni recordiau Cymraeg llawn amser; ugeiniau o swyddi llawn amser yn cael eu cadw gennych chi y kids; Cenedlaetholdeb/wyr wedi colli eu monopoli ar y sin; cannoedd o fands Cymraeg; enw da i fands Cymreig yn datblygu'n rhyngwladol; cyfweliadau ac adolygiadau o safon yn y papurau Prydeinig o fandiau Cymraeg; mwy a mwy o ganolfannau (neu 'venues') yn barod i dderbyn bandiau Cymraeg; y Crumblowers wedi cael 'single of the week' yn yr N.M.E.; Radio 1 ac Atlantic 252 yn chwarae stwff Cymraeg...........Blydi Hel! Rhaid atal y cwyno!!!!!

Meddyliwch am agwedd gyffrous Sain, Fflach, Ankst (neu efallai y dyliwn ddweud Crai, Semtex,Ankst - efallai ei bod hi yn bryd i Ankst gael label fewnol er mwyn seinio bandiau bach newydd), mae'n ffres ac mae'r datblygiadau mewn hyrwyddo etc. gan Sain a Fflach wedi dod fel ymateb uniongyrchol i waith di-ddiwedd a gwych Ankst.
Yn y flwyddyn ddiwethaf yma er enghraifft mae llwyth o fandiau wedi eu seinio fyny gan y labeli hyn, na welodd stiwdio cyn hynny. Mae Sain wedi creu brwdfrydedd gyda'u seiniau hyfryd hollol newydd. Daeth stabl Crai a'r Amddiffyn, Byd Newydd, Soriant, a'r Moniars inni tra mae Fflach a'u label newydd 'Semtex' wedi ffrwythlonni gyda Caffi Fadassi, Defaid,Gorky's Zygotic Mynci, Tips Wyn Gruffydd, Jylopis, Dylanwad Drwg, Gwrthod yr Afal, Llio Millward a LLesmair, ac mae Ankst wedi bod yn weithgar iawn gyda'u bandiau newydd sbon fel Geraint Jarman, Y Cyrff, Steve Eaves, Datblygu, Diffiniad ac Wwzz.

Mae gwaith di-flino cwmni fel Ankst ar wedd farchnata newydd, a'u cywaith law-law a'r cyfryngau wedi bod yn wers i'r hen ddeinasoriaid-roc, mae hi mor braf cael gweld teimladau proffesiynol greadigol bositif ffres yn cael eu chwythu at y sin. A nawr mae'r newid-byd yma am daro darllennwyr Sothach yn eu gwynebau, mae Sothach am droi yn Soth, mae naws y cylchgrawn am newid, mae'r safon am godi, mae'r ysbryd am fywiogi, mae'r chwa o wynt a addawyd gyhyd am ddod.

Tra'n trafod y newidiadau fyddai'n digwydd i Soth bu trafodaethau gyda nifer o bersonnel Fflach a Sain, ond gyda cwmni Ankst cafwyd y cyfle i gael cyfarfod yn eu swyddfeydd moethus ym Mhenygroes a bu syndod ar ran Sothach at agwedd barod, cyfeillgar a chefnogol Ankst. 'Roedd eu cydymdeimlad, eu brwdfrydedd, eu cymorth parod, a'r llifeiriant o syniadau newydd i'r cylchgrawn yn ein gadael yn hollol geg-agored ac mewn pendro. Braf yw medru dweud felly ein bod am ymosod ar y cyfnod newydd yma yn hanes Soth gyda chymorth Sain, Fflach, ac yn enwedig Ankst.

Does ond un gwyn gennym, a honno'n un bitw, ond am ba hyd mae'n rhaid i'r S.R.G. ddioddef y law drom a bwysir ar yr ysgwydd gan wleidyddiaeth genedlaetholdeb, ac mae gen i ofn y bu Sain ac y mae Ankst yn syrthio mewn i'r twll di-waelod hwnnw. Pam mae disgwyl i bob cerddor Cymraeg fod yn genedlaetholwr? Mae gen i ofn fod y dyddiau hynny wedi hen fynd i'r moch. Am ba hyd bydd rhaid i fandiau Cymraeg chwarae gigs crap am bres pitw, a hynny oherwydd fod yr elw "yn mynd at y Blaid/Cyfamodwyr/Gymd-eithas etc." (delete if not applicable). Mae hi'n bryd cael asiantiaethau annibynnol sydd yn trefnu gigs at neb na dim, ond am eu poced eu hunain. Mae'n braf gweld hyn yn digwydd yn y Gogledd yn barod, ydych chi yn wirionedd mwynhau chwarae yn nosweithiau'r eisteddfod?

Mae'n drueni fod yn rhaid i ganu Cymraeg fod yn wleidyddol. Mae'n ystrydeb erbyn hyn i grwpiau ddweud fod "Canu yn Gymraeg ynddo'i hun yn beth gwleidyddol", wel, peidiwch a cidio'ch hun. Ydy canu mewn Rwsieg yn Rwsia yn wleidyddol? Tyfwch lan.

Mae canu Cymraeg yn dal i gael ei gysylltu a gwleidyddiaeth i'r graddau erbyn hyn fel fod unrhyw greadur sy'n gwrando ar fand Cymraeg yn cael ei labelu'n "Welsh Nash" gan y iobs lleol. Mae rhai enghreifftiau o thygs yn ymosod ar neuadd ddawns. Mae'r iobs di-feddwl yma wedi eu cyflyru gan wrando ar ganu Cymraeg sydd yn fwy na heb yn galw am "Gymru Rhydd". Dach chi'n gweld, mae yma griw ohonom ni yn meddwl fod troedigaeth yr Alarm yn gwneud dim, ond cryfhau'r syniadaeth yma, "we must save the language so lets sing in Welsh". 'Roedd cynnal Rhyw Ddydd-Un Dydd yn gamgymeriad mawr iawn.

Mae gwaith cenhadol hogia fatha'r Anhrefn a Fflaps yn y cymoedd yn bwysicach yn y pendraw nag unrhyw fudiad cenedlaethol. Mae'r neges yn mynd adref yn groyw, gyda nifer fawr o'r kids yn parchu'r iaith drwy'r S.R.G. yn hwy na chynt.

Wyddoch chi, ynghanol gigs gorau erioed yn y Gymraeg gyda Meic Stevens yn meddiannu eneidiau y dorf mi rydych chi'n siwr o gael rhyw ffwl yn gweiddi "Bobby Sands" ac yn lladd unrhyw ystyr difrifol sydd i ganeuon hyfryd Stevens. Dyma'r agwedd sy'n lladd canu Cymraeg, iw now, y cwestiwn ai Ankst ynteu Cymdeithas yr Iaith drefnodd "Noson Claddu Reu"? Y fodolaeth ddeuol. Mae'n rhaid i hyn stopio nawr.

Os oes rhaid i gerddoriaeth ymwneud ag achosion gwleidyddol, pam na wneir hynny mewn modd di-drais greadigol megis gwrthod a'r twf ffasgaidd hyll sydd yn Ewrop? Mae'n boenus o amlwg fod y mudiad cenedlaethol yn troi'n fwy fwy asgell dde yn ddyddiol, gyda cylchgrawn ffasgaidd ar y farchnad : "The White Eagle", gyda'r Cyfamodwyr yn gwneud datganiadau erchyll fel "Atal priodasau rhwng Sais a Chymraes"! ac "Afiechyd Saesneg yw Gwrywgydiaeth" (glywsoch chi am 'ethnic cleansing'?). Mae'n ddychryn! Rhaid yw i'r Sin Roc Gymraeg ymwrthod a ffasgaeth a'i holl hiliaeth anobeithiol. Rhaid i'r tan yma ddiffodd heddiw!

Yn druenus, efallai, mae pob band Cymraeg yn ei gweld hi'n arwrol i ganu yn y Gymraeg. Felly, mae'n siwr mai'r eironi fwyaf yw fod bandiau Cymraeg di-Gymraeg hefyd yn gosod yr iaith ar flaen yr agenda. Mae'r Alarm wedi gwneud hynny mewn modd nawddoglyd gan edrych lawr eu trwynau ar yr iaith, mae'r Manic Street Preachers yn amlwg wedi rhoi eu hunaniaeth ar flaen y gad, gan wadu unrhyw Gymreictod a berthyn iddynt. O! Mor braf ar y Manics yw gallu deffro'n y bore, yn gwybod eu bod yn ddi-wleidyddiaeth, heblaw am eu gwleidyddiaeth-ddiflastod. Mor braf yw gweld cenedlaetholwyr blaenllaw yn methu deall barn y Manics ar ganu Cymraeg. Cafwyd nifer o lythyrau gan genedlaetholwyr parchus yn cwyno am gyfweliad y Manics. Yn anffodus nid yw'r rhan fwyaf o'r rhain yn weddus i'w cyhoeddi, yn arbennig pan welir agwedd 'y cachwr' ganddynt lle na ddatgelir enwau'r awduron. O gyfeillion! Petae'r darllennwyr ond yn cael darllen rhain! Byddai meddylfryd nifer fawr o bobl yn newid o fewn ychydig funudau.

Felly gyfeillion annwyl, rydym yn edrych ymlaen at y cyfnod newydd yma yn hanes y S.R.G., mae dyddiau cyffrous yn disgwyl Sothach! Gadael yr Ugeinfed Ganrif. Efallai mai'r eironi mwyaf yw

# PiGiON PiWSiG

**AR WERTH**
Drymiau 'PREMIER' "Chrome Clad". 5 Drwm.
Symbalau Zildjian a Paiste, Remo Rototoms, stands, stol ac yn y blaen. Y cyfan mewn bocsus. Pris i'w drafod.
Ffôn: Caerdydd (0222) 221 584.

**JINA**
Mae nifer cyfyngedig o grysau-T poblogaidd iawn JINA ar ôl heb eu gwerthu, felly dyma'ch cyfle ola i fod yn berchen ar enghraifft o gelfyddyd cnawdol cyfoes. Manteisiwch ar y cyfle drwy gysylltu â Pwyll ap Sion ar 0248 602 107.

**DISGO TYSTION**
Mae DISGO TYSTION ar gael am bris rhesymol ac yn cynnwys amrywiaeth amesing o gerddoriaeth o pop, dawns, hip hop, techno, ref, reggae, indie, 60au, gwerin a chlasurol. Manylion pellach: 0267 233 476.

**IAN RUSH**
Mae crysau-T IAN RUSH (y grŵp) yn dal ar gael am £6.50 gan Marc Jones, 31 Stryt y Bont, Pynycae, Wrecsam, Clwyd. Ffôn: 0978 843 401.
Ar y crysau gwelir cynllun gwychfawr sy'n dangos IAN RUSH ( y peldroediwr) yn sgorio'r gol enwog yn erbyn Yr Almaen ar Barc yr arfau.

**PSYCHO #4**
Mae'r pedwerydd rhifyn o'r ffansin "Psycho" allan nawr. Mae'n cynnwys cyfweliadau, adolygiadau (+discograffis) Hyn i gyd o fewn 30 tudalen ar gael trwy'r post am ddim ond £1.00 (sy'n cynnwys post a chludiant) gan Steffan Cravos, 8 Penybanc, Tanerdy, Caerfyrddin, Dyfed SA31 2HA.

**MACHER # 13**
Rhifyn Tachwedd allan rwan!
Cyfweliadau gyda AMDDIFFYN, DFFA, SORIANT ac ecscliwsif gan DANIEL GLYN. Yn ôl Dave Jones y golygydd mae'r ffansin hefyd yn cynnwys "lot o slaggings" a "dwy dudalen o adolygiadau records gan gynnwys DIFFINIAD, WWZZ, Y CYRFF a JARMAN"
Manylion pellach oddiwrth Dave Jones, 108 Vale St. Dinbych, Clwyd LL16 3BS

**PA PA?**
Chwilio am PA? Cysylltwch â Emyr Lloyd (PA RHAD) ar (0341) 41 205



JACKIE WILLIAMS - JINA LLUN: CARYS DAFYDD

**ISIO GIG YN YR ALBERT?**
Mae gigs yn cael eu cynnal yn yr Albert, Caernarfon pob nos Iau. Os oes gennych ddiddordeb mewn chwarae ffoniwch ALEX am fanylion a thelerau ar (0286) 3468.

**AMLGYFRANNOG**
Mae GWYN JONES o Fethesda yn chwilio am gyfraniadau ar ffurf caneuon newydd gan grwpiau ar gyfer caset amlgyfrannog. Bydd unrhyw elw o werthiant y caset yn mynd at godi arian ar gyfer ymgyrch sefydlu canolfan gerddorol a chymunedol ar safle'r Tabernacl ym Methesda. Cafwyd cadarnhad yn ddiweddar bod cwmni yn barod i noddi y fenter yn rhanol, ond bod angen codi'r arian sydd weddill. Byddai cyfraniadau gan unrhyw grŵp yn cael eu gwerthfawrogi.
Am fanylion pellach cysylltwch â GWYN JONES ar 0248 602 107

**CYLCHOEDD HUD**
Mae'r CYLCHOEDD HUD wrthi'n gwneud caset newydd yn STIWDIO OFN ar hyn o bryd. Bydd y caset yn cynnwys 7 cân newydd ac mae taith trwy Gymru ar y gweill i hybu'r cynnyrch. Mae Coleg Meirionnydd yn noddi'r grŵp drwy dalu am gostau'r tapiau.

**WNCWL FFESTR**
Er mwyn dathlu eu ymddangosiad cyntaf ar Fideo 9 mae WNCWL FFESTR wedi datgan "cynnig arbennig ar gyfer tymor ewyllus da", mewn geiriau eraill caset WNCWL FFESTR am hanner pris sef £2.00 +50c post a chludiant gan Guto Lloyd, 68-70 Stryd Kinmael, Y Rhyl, Clwyd LL18 1AW. Yn ôl Guto "Dyma bresant 'Dolig penigamp!"

**GIG . . GIG . . .GIG . . .**
Mae tafarnwr yn Abergwaun wedi addo rhoi £100 tuag at gael grŵp roc Cymreig, un bob mis am 'wech mis. Mae arian felly am 'wech grŵp dros 'wech mis. Os oes gan unrhyw grŵp roc ddiddordeb yn y cynnig yma ac angen manylion pellach yna cysylltwch ar unwaith gyda : DEWI RHYS-JONES, FFLAT 5, 'COMMERCIAL HOUSE', YR HOTEL FAWR, WDIG, DYFED SA64 0BN.

**SEMTEXX**
Mae SEMTEXX label newydd arloesol CWMNI FFLACH yn bwriadu rhyddhau nifer o grwpiau newydd neu ifanc ar gyfer y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Ym mhlith yr artistiaid bydd DOM, GORKYS ZYGOTIC MYNCI, LLESMAIR, CAFFI VADASSI, AIL GYFNOD a JYLOPIS. Felly gwyliwch allan am ŵyl ffrwydrol, danllyd, swnllyd . . . . . . .!

**CYNGHRAIR WRTH NAZI** (ANTI NAZI LEAGUE)
Mae'r GYNGHRAIR GWRTH NAZI wedi rhyddhau albym amlgyfrannog yn ddiweddar 'NEVER AGAIN' sy'n cynnwys 19 o brif grwpiau pob maes ac arddull o Roc i Ref o Reggae i Gerddoriaeth Byd ac yn cynnwys grwpiau megis YR ANHREFN, THE SHAMEN, PROCLAIMERS, BOMB THE BASS, PELE, TOM ROBINSON, THE REDSKINS, SHAM 69, THE NUTTY BOYS, ORGASM PLC a llawer, llawer mwy. Mae'r caset a CD ar gael ynghyd a

# PIGION PELLACH

manylion pellach gan MICHAEL SINGH 071 924 0333 neu RONNIE FLOOD (Nil Satis Records) 051 298 2344 neu drwy ysgrifennu at ANL, PO BOX 2566 Llundain N4 2HG.
Sefydlwyd y Gynghrair Wrth Nazi yn y 70au hwyr fel ymateb i hiliaeth a ffasgiaeth.
Oherwydd pryderon cynyddol ynglyn a grwpiau eithafol asgell dde penderfynwyd ail sefydlu'r mudiad i wrthsefyll y bygythiad ym Mhrydain ac Ewrop.

**DOM**
Mae Peredur ap Gwynedd gitarydd DOM wedi mynd ar daith i Romania gyda BEAT INTERNATIONAL. Ymddangosodd Peredur yn ddiweddar ar raglen fore Sadwrn y BBC 'Going Live' gyda MICRO GROOVE. Yn y cyfamser mae gweddill y band yn gweithio ar ganeuon newydd ac yn ymarfer. Bydd caset newydd allan ar label Semtexx erbyn y Nadolig.

**MACYM**
Mae MACYM sef Mudiad Adloniant Cymraeg Ynys Môn ar fin cael ei atgyfodi ond o dan enw newydd sydd eto iw gyhoeddi. Sefydlwyd y MACYM gwreiddiol ym Môn yn ystod y 70au cynnar er mwyn cynnal canolfannau adloniant yn y Gymraeg. Wedi cyfnod llwyddiannus iawn yn sefydlu canolfannau fel Plas Coch, daeth i ben yn 1979. Yn ddiweddar fodd bynnag penderfynwyd ail sefydlu'r mudiad oherwydd y 'gwagle llwyr' sy'n bodoli ym maes adloniant a chanolfannau Cymraeg ym Môn.
Aelodau'r criw newydd yw: DYLAN MORGAN, GARETH LEWIS, DELYTH LLWYD a SIONED HUWS. Maen't wrthi yn chwilio am feniws ar hyn o bryd gyda'r bwriad o drefnu un gig rheolaidd y mis gyda phwyslais ar gynnal nosweithiau ac nid ar wneud elw. Nid oes sicrwydd eto os bydd y gigs yn cael eu cynnal o dan faner CYMDEITHAS YR IAITH neu yn annibynnol.
Manylion pellach gan SIONED HUWS ar (0248) 713 159 neu
4 STRYD Y BONT, PORTHAETHWY, YNYS MÔN.

**FFA COFFI PAWB**
Bydd albym newydd 12 trac FFA COFFI PAWB allan erbyn y Nadolig ar label ANKST o dan yr enw 'HEI! VIDAL". Dywedodd GRUFF lleisydd y band "bydd y caset yma yn 'landmark' cyntaf cerddorol y nawdegau yng Nghymru". Ar y gweill hefyd mae taith ar gyfer y gwanwyn fydd yn yn cynnwys nifer o gigs mawr yng Nghymru ac yna taith trwy Lloegr, Ffrainc a Tsiechoslovakia. Bydd manylion pellach am y gigs yng Nghymru ar gael yn agosach at y dyddiad.

**3YDD CLUST**
Mae STIWDIO 8 trac 3YDD CLUST wrthi'n recordio nifer o fandiau lleol o ardal Aberystwyth. Yn eu plith mae TIPS WYN GRUFFYDD, CANOL LLONYDD, MR. ALFFABET, DATBLYGU, CUSAN TAN, CAT & DOG MOON a THE MOSS CLAN. Y bwriad yw rhyddhau tâp a CD amlgyfrannog er mwyn lansio label newydd y stiwdio. Am fanylion pellach ynglŷn â'r stiwdio neu'r caset / CD cysylltwch â MEIC, Stiwdio 3ydd Clust, Y Brachdy, Trefechan, Dyfed SY23 1BE. Rhif ffôn: (0970) 624 572.

**JOHN CALE**
Bydd JOHN CALE yn cynnal cyngerdd yn Neuadd Brangwyn, Abertawe ar Tachwedd y 23ain i gyd fynd a lansio ei LP newydd 'FRAGMENTS OF A RAINY SEASON'. (Gweler y gystadleuaeth rhywle rhwng y cloriau)

**BEGANIFS**
Bydd 'AUR' caset newydd wyth trac BEGANIFS yn cael ei ryddhau ar Ragfyr yr 2ail. Er mwyn hyrwyddo'r caset bydd y BEGANIFS yn teithio Cymru rhwng Rhagfyr y 15ed a'r 19ed gyda GERAINT JARMAN A'R CYNGHANEDDWYR.
Bydd y daith yn ymweld a phum canolfan
Rhag 15, Octagon, Bangor;
Rhag 16, Canolfan Aberconwy, Ll'dudno;
Rhag 17, Neuadd Victoria, Llambed;
Rhag 18, Theatr Cwm Tawe, Pontardawe
Rhag 19, The Exchange Hall, Caerdydd.

Manylion pellach gan ANKST - ALUN, EMYR neu GRUFFYDD ar 0286 881 010

**TŶ GWYDR**
Mae TŶ GWYDR wedi ail ddechrau ymarfer ar ôl cyfnod o rai wythnosau yn sgwennu set newydd. Bydd y set newydd yn cael ei lansio ar Ionawr y cyntaf yng Nghlwb Ifor Bach. Yn ôl GARETH POTTER maen't, "wedi bod yn gweithio ar agweddau o berfformiad byw fydd yn golygu egni mwy 'controled' yn y perfformiad, mwy o 'structure' ". Mae'r TŶ GWYDR newydd fod yn STIWDIO CCYP yng Nghaerdydd yn arbrofi gyda'r deunydd newydd sydd yn ôl GARETH yn "lot mwy tuneful". Mae nifer o bobl eraill wedi bod yn helpu'r aelodau gan gynnwys IAN o DIFFINIAD.

**DEFAID**
Mae'r DEFAID wedi cael dau aelod newydd sef ELEN ELLIS fel lleisydd a DEWI (DONC) WILLIAMS ar y gitâr. Mae'r newidiadau hyn yn dilyn ymadawiad diweddar HUW DYLAN prif leisydd y grwp at GWERINOS.

**MONIARS**
Mae rhai newidiadau wedi bod yn 'lein up' y MONIARS yn ddiweddar hefyd. Mae MALCOM BUDD o Borthaethwy bellach yn chwarae ffidil ar ôl ymadawiad DAN MORRIS ac mae ANDY MAC wedi ymuno ar yr accordion a'r whistl. Dywedodd ARFON WYN lleisydd y grŵp eu bod wedi cael cynnig taith i Berlin i chwarae mewn nifer o glybiau ac "Irish Bars". Bydd y daith yn cael ei threfnu gan BILLY ARAGEN trefnydd eu taith llwyddiannus diweddar i'r Iwerddon.

**WWZZ**
Mae WWZZ yn gobeithio dychwelyd i'r stiwdio yn fuan i orffen recordio eu caset newydd 6 trac "Rhannu Cyfrinach". Yn y cyfamser maent yn cynllunio 'remics' o un o ganeuon HANNER PEI, er mwyn ei gynnwys ar gaset newydd HANNER PEI sef 'Veibroslap'. Mae WWZZ hefyd wrthi yn prynu mwy o offer ar hyn o bryd er mwyn gallu cael sŵn llawer mwy byw yn eu perfformiadau a defnyddio llai o 'backing tracs'.

# TAITH I'R IWERDDON

## NEU SARDINS YN DAWNSIO MEWN TUN

**Wedi dychwelyd ar ôl taith 10 niwrnod llwyddianus a blinedig iawn o Eire werdd mae'r grŵp gwerin cyffrous y MONIARS. Bu Monyn, ein gohebydd arbennig ar eu trywydd draw dros y don.**

Bu derbyniad annisgwyl o wresog iddynt ar hyd a lled y wlad o Galway i lawr i Cork ac o Kilkee i Ŵyl Gelfyddydol Kilkenny gyda rhai nosweithiau a phrynhawniau arbennig yn sefyll allan i'r bechgyn. Dyw'r Moniars erioed wedi ymddangos ar y teledu yng Nghymru ond maen't yn sicr yn un o'r grwpiau sydd wedi chwarae'r nifer fwyaf o nosweithiau yn ystod y ddwy flynedd ddiwetha'.Dywed Einion Williams, bodhranwr y grŵp: "Chwarae'n fyw sy'n bwysig i ni, dyna sy'n cyfri yn y pendraw a dyna sy'n cyrraedd y bobl. Dim ond grwpiau honedig danddaearol sy'n cael ymddangos ar S4C gan fwyaf, grwpiau sydd ddim yn chwarae'n fyw yn aml ond yn hogio'r holl sylw ar y bocs. Chwarae gigs oedd y peth pwysig i ni yn Iwerddon hefyd ac fe werthodd ein caset newydd yn helaeth yn sgil hynny"
'Roedd Arfon Wyn prif leisydd y grŵp wedi poeni na fasa'r Gymraeg yn mynd lawr efo'r cynulleidfaoedd yn Iwerddon ond dywedodd ar ôl y daith "Doedd yr iaith ddim yn rhwystr o gwbwl 'roedd ein perfformio bywiog yn ddigon i ysgogi'r ymateb cywir a'r Gwyddelod bob amser yn barod i wrando a dawnsio yr un pryd! Dwi'n meddwl fod y briodas rhwng y sax a'r ffidil, y dryms a'r bodhran, y mandolin a'r gitar, yr hen a'r newydd wedi plesio pobl oedd yn chwilio am rhywbeth gwahanol."
"Welsh Cajun music" a "Celtic Fusion" oedd yr enwau a roddwyd gan y cynulleidfaoedd Gwyddelig ar fiwsig y grŵp. Bu iddynt gyfarfod llawer o gerddorion enwog fel aelodau De Dannan a chael gweithio mewn stiwdio yn Lepp ger Cork sydd yn arbenigo mewn recordio cerddoriaeth fyw.
I'r Moniars, Galway ydi'r lle i chwarae cerddoriaeth arbrofol Celtaidd. Buont yn chwarae yn y Monroes enwog, Y Galway Shawl, Y Jug o'Punch a llefydd tebyg. Byddai'r bechgyn wedi bodloni chwarae am wythnos gyfan, ddydd a nos yn Galway ei hun. Yn ol Arfon, "Dyma'r lle sy'n baradwys i grwpiau gwerin, yn enwedig os oes 'na swn 'chydig yn wahanol i'r arfer gennych. Mae'r derbyniad yn anhygoel, rhaid gadael y dorf yn galw am fwy bob tro ar ol sawl encore, neu mi fyddwch yn canu




Y MONIARS — llun: Gerallt Llywelyn

drwy'r nos. Y noson yn y Galway Shawl oedd yr uchafbwynt, 'roedd pawb fel sardins yn dawnsio mewn tun ar ddiwedd y noson."
Buont yn perfformio yn y 'pnawniau hefyd gan fod tair gig ran amlaf ymhob lleoliad yn Galway: gig 'pnawn, gig yn gynnar gyda'r nos a gig hwyr. Mae cerddoriaeth a'r celfyddydau yn hynod bwysig i'r Gwyddelod yn enwedig yn Galway. Ac yn Galway buont yn perfformio gyda Robbie Murphy y bodhranwr enwog gyda'i dechneg anhygoel - gall wneud i'r drwm Gwyddelig siarad.
Billy Aragen un o brif drefnwyr adloniant yn yr Iwerddon, a drefnodd y daith. Rhoddodd wahoddiad i'r Moniars wedi iddo eu gweld yn perfformio ac yn ennill y wobr: Prif grŵp gwerin yn yr Ŵyl Pan Geltaidd yn Galway (Pasg '92) Dysgodd y grŵp lawer yn ystod y daith a chael recordiad byw penigamp i ddod adra efo nhw o berfformiad Cork. Hoffai'r bechgyn ddiolch i hogia Penygroes ddaeth draw yn unswydd iw cefnogi ac i helpu efo'r offer. "Braf oedd cael 'roadies' da a system sain penigamp am chenj", meddai Einion. Yn syml, taith bythgofiadwy ac maent eisioes wedi eu gwadd yn ôl gan Speedy Smith, trefnydd nosweithiau adloniant blaengar o Galway. "Hei! beth am fynd yno i fyw "meddai Jos. Bysai'n braf iawn cael gwneud hynny ond rhaid disgwyl am dipyn cyn cael dychwelyd eto i Dir Na Nog cerddoriaeth gyfoes Geltaidd

**Monyn**


MCP PRESENT




PLUS SPECIAL GUESTS
PIGS FROM A GUN

**BOGIEZ CAERDYDD**
**Nos Fercher, Tachwedd 18. 7.30pm**
Tocynnau: £5.00 (Ymlaen llwa). Ar gael gan Bogiez
B/O Tel: 0222 226168 a City Centre Ticketline (tal yn ddyledus).

**CLWB COFEB RHYFEL WRECSAM**
**Nos Iau. Tachwedd 19 7.30pm**
Tocynnau: £5.00 (Ymlaen llaw). Ar gael gan Phase One, Wrecsam
Tel: 0978 264 940, Phase One Y Rhyl, Penny Lane Records Chester, Kavern Llandudno, Kavern Y Rhyl, Marjan Prestatyn, Recordiau'r Cob Bangor, Crocodile Records, Yr Wyddgrug
(tal archebulyn yn ddyledus).




**OES GENNYCH CHWI STORI DDA?**
**YDY'CH MAM YN RHEDEG MARATHON?**
**YDY'CH BRAWD YN CADW BOA CONSTRICTOR?**
**YDY'CH NAIN YN DAL I DDAWNSIO DAWNS Y GLOCSEN?**

*RHOWCH WYBOD I*

HEL STRAEON

GRONANT, CAERNARFON
LL55 1NS
FFÔN
(0286) 77595

# ONE STYLE MDV

Cyfweliad gyda **ONE STYLE** MDV
Hydref 1992. Stiwdio Sain Llandwrog.

"Ethiopia Newydd", Jarman, oddiar caset Hen Wlad Fy Nhadau, 1978. Fyddai perthynas Reggae a Chymreictod byth run fath eto. Gwrando ar Jarman mi fasa rhywun yn credu fod hi'n hollol naturiol i Gymro Cymraeg wrando ar Reggae, fod y Cymru'n deall natur y Rasta yn reddfol. Fe darodd Jarman nodyn craidd ym meddwl nifer fawr o Gymru a allai ymdeimlo fod yna berthynas amlwg rhwng Reggae a Chymreictod, yr unig broblem oedd fod neb yn siwr iawn pam roedd hynny i fod. Ond doedd o ddim llawer o ots am rhesymeg y peth mewn gwirionnedd, yn ein calonnau ni oedd y 'Nigger Boi, John Boi, Cymro' ac roedd Rastiaeth yn llithro mewn i'r ecwation mor ddidrafferth a dim. Yn ddiweddar yma fe wahoddwyd grwp Reggae enwog o Lundain draw i Gymru i gynnal taith fechan, roedd hyn yn cydfynd a rhyddhau record diweddaraf y grwp ar label Crai. Toedd y ffaith fod y band yn ystyried canu 'un neu ddwy o ganeuon yn Gymraeg' ddim yn cuddio'r ffaith fod Sain wedi seinio band Saesneg eu hiaith o Ddwyrain Llundain. Y cyfiawnhad yn syml ydi fod **ONE STYLE** yn fand Reggae, ac felly yn fand 'Cymreig'. Felly roedd hi'n amser i SOTH gael gair a **ONE STYLE**, er mwyn ceisio deall pam mae Reggae mor 'wleidyddol gywir' yn meddwl cymaint o Gymru Cymraeg. Yn stiwdio moethus Sain yn Llandwrog fe gafodd Soth gyfle i siarad a'r hogiau clen yma o Hackney, oedd wrthi'n recordio.. roedd ganddyn nhw ddigon iw ddeud.

Soth: Sut mae'r daith yn mynd?

One Style: **Stix** : " O!, the tour, excellent, yeah, Monday Ship & Castle...pretty full..good"

Soth: Disgrifiwch yrfa One Style hyd yma.

One Style: **Stix:** " Ym, wel, it's just really, we started I'd say about 1984, like from a gig we did in the Notting Hill Carnival, then we started really serious about music, we practised mainly in Hackney; that's why we're seen as a Hackney - based band, that's where we practise"

Soth: Ydi Reggae yn boblogaidd yno?

One Style: **Stix:** "Music is big in Hackney, yeah there's loads of musicians there"

Soth: Be ydi uchafbwyntiau gyrfa One Style hyd yma?

One Style: **Prophett:** " Wel, our career is funny, it goes up and down, 'cos until very recently we dont really turn down any gigs ya know, we do benefits and stuff like that at the same time, so one day we could be playing with Burning Spear, or we could be in Spain, and the next day we're in a little school place doing a free show, a little club place, we haven't got a consistant career, it's up and down"

Soth: Be ydi'r ysbrydoliaeth tu ol i fiwsig y band,' dachi'n gwybod dachi'n siarad am ddod a 'neges' Reggae i Gymru, ai am y miwsig yn unig 'dachi'n siarad?

One Style: **Prophett:** " To explain it's basically the Reggae idea and ideals"

Soth: Dwi'n ofni bod fy ngwybodaeth i'n brin yn hyn o beth (chwerthin), fasach chi'n gallu mynd trwy'r pwyntiau sylfaenol?

One Style: **Stix:** "Well, the way we see it, getting back to the...we're just trying to know ourselves as what we are, black men, as Affricans, 'cos we play Reggae, yeah a lot of people think Jamaica, West Indies, we want to go further, you know like right back to where we come from, which is Africa, so a lot of our inspiration comes from us lot trying to find ourselves personally..together as a band, as our cultures, and find out our roots, that's why our music is different as well"

Soth: Ai dyma'r ysbrydoliaeth gyffredinol i Reggae?

One Style: **Stix:** "Well I dont know, for other musicians like Gregory Isaacs or someone like that, their inspiration is probably something else, ours is like Reggae was the way of getting to our roots", **Prophett** :" The roots of Reggae come from the very beginning of man's creation and his first instruments, so it's like the 'message music' and the talking drum, the things that are happening in the world, people dont really want to talk about, dont really want to face up to, like you'll always find it in Reggae so that it stems from that sufferers kind of music, like suffering, it doesn't matter if you're black or white or what part of the Earth you're from, you will always be able to relate to Reggae, because Reggae has always been in it's true sense and spirit, if it's being played in it's true spirit it will always come out and it will always touch you, whether you can understand the lyrics or not, it's coming from the sufferers point of view"

Soth: Felly yr hyn ydach chi'n i ddeud ydi fod unrhywun yn y byd yn gallu deall Reggae?

One Style: **Stix:** "Yeah"

Soth: Ond dwn'im, os ydach chi'n deud fod Reggae yn 'laith ryngwladol', dwn'im..ydi hynna ddim yn swnio fel imperialaeth ddiwylliannol,.. fel Neighbours, ydi be dachi'n i ddeud ddim ru'n fath?

One Style: **Prophett:** " No I dont think so, I dont see it like that, I didn't say Reggae is universally understandable, I said if you're suffering or if you're oppressed or if you know what it's like not to have any food and those kinds of things, and you're looking for an inspiration in life, and you aint getting it, Reggae is the music coming from the roots, from it's true scource, it'll always uplift, that way I'm just saying, it's got nothing to do with cultural imperialism, it's got nothing to do with being black or white, Reggae is a feeling"

Soth: Ond oni ddylai pob diwylliant gael ei lais ei hun wrth chwilio am rhyddid?

One Style: **Stix:** " Yeah, every culture should"

Soth: Reit, Ok, ond mae Reggae wedi ei wreiddio mewn un diwylliant arbennig yndydi, mewn ffordd arbennig o feddwl...(tawelwch)..mae Reggae mor gaeth a dim yndydi i hanes a thraddodiad?

One Style: **Prophett:** "I dont think so, you cant have.."

Soth: Wel o lle ddoeth Reggae te?


One Style: **Prophett:** " It evolved from the talking drum, yeah..but to put it in another scenario yeah, to me any music that's dealing in reality and life, how the people as a majority live, not the select few, and we all know how the people as amajority live, and the suffering rises up and says it ' shouldn't be like this', I mean I just look at that as Reggae, it's just roots.. forget the Reggae label then, it's roots Reggae, maybe that will give you a better idea"

Soth: Ydi hynna'n golygu fod Reggae yn gallu bod yn unrhyw gerddoriaeth sy'n trin a'r pynciau yma oeddech chi'n son amdanynt?

One Style: **Prophett:** (yn ddiamynedd)

INTERNATIONAL STRUGGLE

ONE STYLE MDV



ONE STYLE MDV

# INTERNATIONAL STRUGGLE ONE STYLE MDV

"No roots can be, roots, if you're talking about roots, that can be any kind of music" **Stix**: "UB40 and those bands you mentioned, they can be Reggae yeah, but they're not dealing with the roots...roots of life"

Soth: Ond sdim dianc o'r ffaith fod Reggae yn cael ei gysylltu ag un math o rythm, 'di pob cerddoriaeth ddim yn swnio fel hyn, so mae'n rhaid fod Reggae wedi ei sianelu trwy rhyw ddiwylliant arbennig.

One Style: **Prophett**: " It does stem from a particular kind of culture, I dont really know if it's been chanelled"

Soth: Allech chi ddisgrifio hanes Reggae imi? Sut ddatblygodd o? Pwy ddatblygodd o? A sut y cyrhaeddodd o y poblogrwydd presennol?

One Style: **Stix**: "Just by Bob Marley playing, from after he done that, other people...it's evolved to a place where it's even been abused, it's been taken out of it's roots, it was talking about life and things, but it's changed now, it's changed into pop"

Soth: Oeddwn i ar fin gofyn ichi am hyn, ydech chi'n ffeindio 'bai' ar Bob Marley o gwbwl am boblogeiddio Reggae, ddaru o werthu allan?

One Style: **Stix**: " I would say that a lot of Bob Marleys stuff is more roots than anything even though he is in the pop charts" : **Prophett**: " Well, what I think, I dont think is valid is that a lot of people is making music with Reggae, and then , the lyrics they're putting on top of it, is invalid and stupid"

Soth: Fel ?

One Style: **Prophett**: " Like, like DJ songs you put on the radio that are just talking about sex or whatever, they're the ones"

Soth: Os fyddai pobol Cymru a diddordeb mewn chwilio am ei gwreiddiau, ddylen nhw edrych ar eu rythmau cynhenid sydd ganddyn nhw yn eu canu gwerin, pam ddylen nhw edrych tuag at Reggae?

One Style: **Stix** : " Well, whatever culture you're from, if you look into Welsh music, you'lle hear Reggae, and you'lle say yeah, into that, 'cos it's culture, if you go straight into Reggae, then you may not have the right vibes, if you know about your own music as well, then you can appreciate other people's cultures."

Soth: Ydech chi'n siarad am y gerddoriaeth rwan, neu'r syniadau?

One Style: **Stix:** " Yeah" **Prophett**: " It's the same thing isn't it, they're both inter-related, they're not seperate things, the music is an exhibition of the culture, do you understand?"

Soth: Yndw... ond dwi'n dal i gredu fod rythm Reggae yn unigryw i gyfnod a phobol arbennig.

One Style: **Prophett**: "Well it is a particular kind of rythm then, you've got a certain type of cliche rythm like Irish and folk, yeah I wouldn't disagree with that"

Soth: Oes gan cerddoriaeth pob gwlad ei wraidd ei hun neu ydi pob cerddoriaeth yn mynd yn nol i'r un gwraidd, y teimlad dwi'n cael ganddoch chi ydi mae Reggae ydi'r gwraidd hynaf.

One Style: **Prophett**: " That's only if you believe Reggae is the begining of all music; Reggae is not the beginning of all music; African music yeah, from the drum to the guitar, couple of strings, thats where music starts, that's where everyone got their music.

Mi roes i fyny'r lein arbennig yma o ddadlau fama, mi roedd o'n teimlo braidd fel hitio dy ben yn erbyn wal frics.

Soth: Mi roedd ganddon ni ddiddordeb arbennig yn yr hyn oeddech chi yn ei ddeud am anghyfiawnder; yn amlwg dachi'n credu fod yna ymdeimlad rhyngwladol o anghyfiawnder yn bosib?.

One Style: **Prophett** :" Of course it's possible, this is what happens isn't it?"

Soth: Hynny yw yng nghyswllt cerddoriaeth, fe ellid dadlau fod pob anghyfiawnder wedi ei wreiddio mewn llefydd arbennig ar amseroedd arbennig, a bod yr anghyfiawnder yma yn digwydd i bobol arbennig; mae pobol yn arfer canu am yr anghyfiawnder mae nhw yn ei nabod yn tydan?

One Style: **Prophett** : " I think injustice is injustice, period...I mean if you're suffering injustice or oppression, whether you're woman, whether you're black, whether you're Welsh; people say ' I'm suffering', and someone else will say 'I know that feeling, I'm suffering too.. you can't put things in little closets; the injustices on earth are all made by the same people, whether you're in Wales or in Jamaica it's the same people doing it"

Soth: Mae hyn yn reit wahanol i'r ffordd faswn i'n dewis canu, faswn i isio canu am fy mhrofiadau yng Nghymru, dwi'n credu fod y teimlad o anghyfiawnder yn cael ei gryfhau o ddisgrifio stori.

One Style: **Stix**" Yeah, sometimes it goes both ways, cause there's a lot of people doing that as well" Prophett" Maybe it's because we dont see ourselves as seperate from anyone else, like what's so interesting about my life? let's talk about the way we're all living"

Soth: Ydach chi'n meddwl fod cerddoriaeth y band yn mynd i newid y byd?

One Style: **Stix** :"Yeah"

Soth: Mae hyn yn mynd i gymeryd uffern o amser yn tydi, mae'n mynd i fod yn broses addysg hir, er enghraifft toeddwn i ddim yn gwybod dim am Reggae o gwbwl, hynn yw oes rhaid i fywydau pobol newid cyn iddyn nhw ddeall neges One Style, neu ai neges One Style sydd yn mynd i newid eu byd nhw?

One Style: **Prophett** :" Maybe they need to be like minded"

Soth: Mae'ch syniadau chi yn swnio'n intelligent iawn; hynny yw sut ydach chi'n mynd i apelio at y mass o bobol, sy'n styc hefo'u problemau bach eu hunain. Sut ewch chi ati i newid y byd?

One Style: **Prophett** :" Just carry one what we're doing, starting the ball rolling.."

Soth: Be di pwynt tour Cymru, 'di'om yn ymddangos yn debyg i gimmick?.

One Style: **Stix** :" No we understand the feeling in Wales as black people we understand, like they're trying to get rid of the Welsh language... bands should sing in Welsh, it's good, but the gimmick thing I expected that, it's a mark of respect man not a gimmick, it's an international struggle man"

Mae cydymdeimlad One Style yn hollol ddidwyll, ond mae lot o'r pwyntiau wnaeth One Style yn bwrw amheuaeth ar gryfder y sail dros ddadlau ar berthynas ' amlwg' rhwng Reggae a Chymreictod. Pam fod Rhys Mwyn yn cefnogi Imperialwyr Diwylliannol fel hyn?. Yn amlwg yr hyn sydd wedi digwydd ydi fod cerddorion Cymreig wedi cymeryd ond yr elfennau hynny sydd yn ddefnyddiadwy i'w delweddau hwy o brofiad Cymreig allan o Reggae, gan ddiystyru elfennau eraill. Yr unig bobol ddylai anghytuno efo'r eclectiaeth yma ydi One Style. Er gwaethaf rhagfarnau gwrth Reggae y'r adolygydd roedd y Reggae hudolus, rythmig 'easy' oedd yn boomio allan o'r stiwdio yn golygu fod yn nhraed i'n cadw'r bit drwy gydol y cyfweliad, argol oedd miwsig One Style yn swnio'n dda!.

**Owain Meredith**

# HEI BEIBI CYT A BYG!

**Un arall yn ein cyfres o archwiliadau seicolegol dwys i yumennyddau eich hoff sêr pop. Y tro yma - BRYCHAN LLŶR, CYM ON DOWN!!!**

**Y record diwetha' i ti brynu?**

Cerddoriaeth "Neighbours"

**Hoffi glaw?**

Ydw, lot

**Lle wyt ti a pham?**

Yn yr attic. Fa'ma rwy'n hoffi ysgrifennu.

**Pryd fuost ti'n feddw ddiwetha'?**

Nos Iau, mae'n ddydd Sul heddiw.

**Pam mae eira'n wyn?**

I ddangos gwaed yn glir pan mae rhywun yn cael anaf.

**Cawl tun, cawl paced, lobsgows cartre'?**

Lobsgows cartre'.

**Gig cyntaf?**

Fferm Penlan i 30 o bobl.


**Y pella' i ti ffawdheglu/bodio erioed?**

Caerdydd, 100 o filltiroedd.

**Enwa dri clasur o gan?**

"Chrystal Ship" - Doors
En Vogue - "Never Gonna Get It"
"All Bound For Mu Mu Land" - KLF

**Un band fydd yn fawr y flwyddyn nesa'?**



JESS gobeithio

**Y peth diwetha' i ti ddwyn?**

Potel o Sherry

**Wyt ti'n ffrind i Superted?**

Na

**Lliw sanau?**

I ddynion neu ferched? Du i bawb

**Cymru'n rhydd ryw ddydd?**

Ond Cymru sy'n gwybod - cyfrinach ein gwlad

**Caffi gorau Cymru?**

Glyndwr, Dolgellau

**Pwy ddylai fod yn sgwennu yn "Sothach"?**

Neil Kinnock

**Fedri di newid plwg?**

Car neu drydan? Gallaf - a newid plwg y bath.

**Llaeth ynteu lefrith?**

Llaeth neu "Llath" ynein iaith ddyddiol

**Ffordd gyflymaf o Gaerdydd i Gaergybi?**

F*** knows - jet

**Beth yw dy arwyddair?**

Dwi off 'y mox. Ystyr - wedi mynd

**Y peth diwetha' i ti brynu o gatalog?**

Dim erioed 'di prynu o gatalog

**Person enwoca' i chi siarad a nhw?**

Anthony Hopkins

**Esbonia i Sais beth yw cerdd dant**

A musical delight comprising of harp accompaniment and out of time singing

**Enwa dri grŵp perthnasol**

Blood donor group Jess a Group 7 Insurance sy'n defnyddio ceir cyflym i anafu ei hun mewn damwain ac ati

**Pa hysbyseb teledu wyt ti'n ei gasau?**

Powdwr golchi dillad

**Punchline dy hoff jôc?**

Dylech chi wedi gweld y mwnci'n treial rhoi'r corcyn yn ôl

**Pa ddiod sy'n gwneud i ti deimlo orau?**

Llath

**Pwy sy'n well na'r Anhrefn?**

Fflaps

**Record mwya' dylanwadol erioed?**

"Sgt Peppers"

**Y llyfr da diwetha' i ti ei ddarllen?**

"The Famished Rd" - Ben Okiri

# adolygiadau byw

## FFA COFFI PAWB, GORKYS ZYGOTIC MYNCI, DIFFYG PARCH, Y CATHOD - Harveys, Caerfyrddin

Wrth i Ffa Coffi 'sound check-o', dechreuodd y clwb lanw. Y dorf yn gyfuniad o ddisgyblion y chweched, louts rygbi mas ar y 'piss' (fel petai), myfyrwyr a 'Sharons' gyda'i handbags a'i sgertiau mini. Y grŵp cyntaf i ymddangos oedd Y Cathod, grŵp merched yn unig cyntaf cymru! Yn anffodus nes i ddigwydd golli eu perfformiad oherwydd ymweliad gyda'r 'Angel Vaults' lawr yr hewl! O beth glywais i o'r 'sound check', braidd yn an-ddisgybledig oedden nhw. Mae nhw angen tipyn o brofiad eto, i fod yn llawer mwy 'aeddfed'.

Gobeithio fod ddim yn meddwl mod i'n 'sinic', achos person digon gonest ydw i, ac am fod yn hollol onest a di-dwyll am Diffyg Parch. 'Rip-offs' pumed gradd 'Jesus & Mary Chain' gyda'r prif leisydd yn cyffwrdd ei hun trwy'r amser, gyda 'case' gwael iawn o 'verbal diarrhea. Roedd ymateb y gynulleidfa yn cyfiawnhau'r grŵp - neb yn talu unrhyw ddiddordeb, ond am tri o fêts y grŵp oedd yn dawnsio ar pennnau hynain. Os ishie dweud mwy?

Cododd y safon, wrth i Gorkys ymddangos yn eu llawn 'uned' - y chwe aelod ar y llwyfan gyda'i gilydd am y tro cyntaf ers oesoedd. Roedd eu set yn dyn iawn, a'r caneuon yn gyflym a llawn egni. O'r diwedd roedd pobl yn dechrau dod i'r llawr dawnsio, a 'bopan'(!) i 'Mewnrhywogaeth', ("cân am 'inner-breeding' . . . un ar gyfer chi ffermwyr", bloeddodd Euros, y prif leisydd trwy'r meic) Roedd yr awyrgylch yn gyffrous wrth i'r Gorky's orffen gyda'r gan enwog 'Sally Webster', gyda'r adrenalin yn mynd yn wyllt yn y dorf oedd wedi ymgasglu ar y llawr dawns fechan. Blydi gwych!

Chwaraeodd Ffa Coffi ganeuon hen a newydd, ambell i gân newydd sbon danlli ac ambell i glasur, fel 'Gafael yn Dyn'. Roedd y set yn llawn gwallau, chwarae gwael, a changymeriadau yn rhemp, ond doedd neb ddigon sobor i sylwi, ond yn mwynhau eu perfformiad, a oedd heblaw am y camgymeriadau yn ganmoladwy. Doedd y 'Louts' rygbi, gyda'i 'jins dad' a'i llewysau wedi rholio, ddim yn rhy hoff o gerddoriaeth byw, yn amlwg. Ar ol Ff. C. P. neud encore, "Dwi'n Troi Yn Ffrwyth" oedd na ddigon o 'chantings' fel "Get the f . . k off!", "Bollocks!" a " Off with those wankers!!" Trist . . .

Gig digon cyffroes, dechrau 'damp', ond eithaf 'wikid' erbyn y diwedd.

**Mihangel yr Angel**

## DAVE SHARP - Normandie, Bangor Ship & Castle, Caernarfon, Black Boy, Caernarfon

Nos Iau yn y Normandie a Dave Sharp yn ôl yng Ngwynedd am y tro cyntaf ers i'r Alarm chwalu. Dros y flwyddyn diwethaf bu Sharp yn byw yn America a heblaw am ymddangosiad yn y Tivoli gyda band trydanol y llynedd prin iawn fu'r cyfle i weld gitarydd yng Nghymru. Heno set acwstig fydd hi ac i helpu mae Joe ar y 'double bass' a'r "Rev" Charlie ar gitâr. Cafodd yr ychydig dros ugain a drodd i fyny gyfle, yn ôl Sharp ei hun i glywed un o'r sets gorau roedd y band erioed wedi chwarae. Cymysgedd o ganu gwlad, gospel a rockabilly gyda llais Sharp yn gras ond yn hynod wrandadwy yn atgoffa rhywun yn syth o Bon Dylan cynnar. Tu cefn i Mike Peters yn yr Alarm doedd neb yn sylwewddoli pa mor dda yw Sharp fel 'frontman' a'r cwestiwn amlwg ar ddiwedd y noson oedd lle ddiawl oedd pawb? Heb gefnogaeth does dim rhyfedd fod cyn lleied o gigs yn ardal Bangor. Ta waeth roedd "pawb" yn y Ship & Castle erbyn nos Wener a Sharp yn cael stoncar o gig. Caneuon fel "Passing Through" a "Aint Gonna Run My World" yn profi'n hits a Sharp yn rhoi un jibe i mewn am ei gyn bartner yn yr Alarm. Wrth sefyll yn y cefn wrth y bar roeddwn yn gweld mor o gefnau - hynny yw - yn wahanol i gigs Cymraeg roedd PAWB yn gwylio'r band a hefyd yn nodweddiadol Cofis oedd y gynuleidfa nid yr arferol Cymry

# adolygiadau byw

Cymraeg - sydd wrth gwrs yn beth da ond ella byddai wedi bod yn lles i'r Cymry SRGaidd weld ychydig o "class". Yn sicr roedd absenoldeb aelodau grwpiau Caernarfon yn awgrymu fod pennau y rhan fwyaf o'r cerddorion fyny eu tinnau.

Cymaint oedd mwynhad y grŵp yn y Ship & Castle nes iddynt aros yng Nghaernarfon am ddiwrnod arall gan droi fyny yn y Black Boy pnawn Sadwrn (heb PA y tro yma) a fe gafwyd un o'r perfformiadau gwefreiddiol hynny sydd yn aros yn y cof am byth. Gyda'r dafarn yn orlawn o 'locals', Cofis, ffans o'r noson gynt ac eraill wedi teithio o Rhyl fe gafwyd SESIWN a hanner . . y band yn gwennu, jammio a Joe yn troi y 'double bass 'na . . . . Werth Croesi'r Afon Yn Droednoeth!!!

**COFI POP 1992 - Clwb Peldroed Caernarfon**

Syniad Da Rhif Un: Cael holl fandiau ardal Caernarfon i rannu'r un llwyfan am noson - i fynegi brawdgarwch ac unoliaeth y sin, ddyn; hyd yn oed os nag ydi'r bandiau'n licio'i gilydd; hyd yn oed os ydi hanner nhw yn hefi blydi metal; hyd yn oed os nag ydi ambell un ohonyn nhw erioed wedi chwarae mwy na thair gig tu allan i'r Albert. Syniad Da.

Syniad Da Rhif Dau: Darganfod canolfan gwerth chweil o'r diwedd yn y dre. Llenwi'r lle. Cael awyrgylch.

Syniad Ddim Rhy Dda Rhif Un: Tynal Tywyll. Ers pryd mae T.T. yn dod o Gaernarfon? Peidiwch rhoi'r crap yma ynglyn a bod angen 'crowd-puller' i'r gig - mae hynna'n nawddoglyd at y chwech band arall oedd yn chwarae. Mi fysa'r lle yn llawn heb Tynal Tywyll.

Syniad Ddim Rhy Dda Rhi Dau: MC Sian Wheldon! Mi gwynodd un o'r bandfiau hefi metal am ddiffyg pobl go iawn "O Dre" yn y gig. Swnio fwy fel diffyg ffans i fi DFFA, YR ADDEWID, SORIANT. Dwi'n casau hefi metal ar y gorau ond be dwi'n 'rili' casu am y bandiau coc roc welais i heno ydi'r ddelwedd pseudo-gwrthryfelgar mae nhw'n drio gyfleu. Gawn ni hyn yn strêt unwaith ac am byth? Mi roddodd gitarydd un o'r bandiau heno ei droed ar y monitor. WAW! Torrwch eich gwalltiau.

Dwi 'di bod yn ffan o Huw Pritchard a'i gyfansoddiadau idiosyncratic erioed ac mi dynnaf fy nghap iddo unrhyw bryd. Ond, mae na rhywbeth bach ar goll efo BYD NEWYDD. Mae'r hyn a enillwyd mewn disgyblaeth band (band mwya' tyn y noson, miwsos) yn cael ei golli mewn ad lib, mynd-off-am-dro neu off-ar-tangent. Mae'r 'joie de vivre', yr elfen fyw o byth-yn-gwybod-beth-oedd-yn-mynd-i-ddigwydd-nesa ar goll.

Mae AROS MAE ag AMDDIFFYN mewn perygl o fethu cyflawni'r potensial oedd ganddynt rhyw ddwy flynedd yn ôl. Gan Aros Mae mae'r mwya i'w golli; nhw oedd yn clogio'r holl sylw cyn i leisiau Beganifs dorri. Heno mae nhw'n ddi-fflach ac mae eu set yn bradychu diffyg cyfeiriad diweddar y band. Fodd bynnag, wedi dweud hynna nhw ddaru roi syrpreis mwyaf annisgwyl y noson. Uchafbwynt eu set oedd y caneuon efo Luned ar ei ffliwt; os bydd eu caset newydd yn llawn o bethau annisgwyl tebyg yna bydd Aros Mae yn bendant yn ôl ar yr agenda cerddorol. Y trueni mwyaf am Amddiffyn ydi mai nhw fysa wedi medru camu mewn i'r bwlch a adawyd gan Y Cyrff. Ond mae diogi ac amgylchiadau anffafriol wedi nadu hynny rhag digwydd. Fel mae nhw rwan mi fydd pobl yn cofio amdanynt fel band ddaru fethu ysgwyd y tag o fod yn 'copyists'.

BEGANIFS gafodd ymateb gorau'r noson. Maen't wedi magu cymaint o hyder eleni fel bod rhywun yn cael y teimlad heno eu bod yn pwdu am beidio cael 'headleinio'. Wedi cyrraedd lefel o boblogrwydd mor fuan (a la Jess neu Tynal Tywyll ers talwm)camp Beganifs rwan fydd yn cadw un cam o flaen eu cynulleidfa eiddgar. Rhoi'r argraff o fod wedi dechrau diiflasu ar eu caneuon eu hunain ddaru'r 'Waunfawr Wonders' heno er gwaethaf yr hyder 'cocky'. Caneuon newydd sydd angen rwan, aros yn ddistaw am ychydig fisoedd a dychwelyd efo 'stormar' o set erbyn y Nadolig. Fydd yna neb yn eu cyffwrdd wedyn.

Yn olaf, TYNAL TYWYLL ddaeth ymlaen i sarhau'r gynulleidfa am beidio dawnsio. Dau gwestiwn sydd wedi aros yn y cof yn ddiweddar: Pam roedd Tynal Tywyll yn chwalu ers talwm pan nad oeddach chi eisiau iddyn nhw? Pam mae Tynal Tywyll yn dal efo'i gilydd pan 'dach chi eisiau iddyn nhw chwalu?

**G.I.Jones**

## CYSTADLEUAETH CYSTADLEUAETH CYSTADLEUAETH CYSTADLEUAETH

Cyfle i ennill cd diweddaraf newydd sbon danlli anhygoel John Cale 'Fragments Of A Rainy Season'

Mae John Cale y perfformiwr byd enwog o Rhydaman yn teithio o amgylch Prydain yn ystod Tachwedd. Ar yr 16ed bydd yng Nghaeredin, yn Leeds ar yr 17, ond ar y 23ain bydd yn Neuadd Brangwyn, Abertawe. I gyd fynd a'i ymweliad cyntaf a Chymru ers blynyddoedd mae Sothach! mewn cyd weithrediad a Firebrand Management yn cynnig cystadleuaeth arbennig i ddarllenwyr Soth! Y cyfan sydd angen i chi wneud yw ateb y tri cwestiwn canlynol:

**1. Ymhle ganwyd John Cale?**
**2. Gyda pa grŵp enwog chwareaodd John Cale yn ystod y 60au?**
**3. Enwch ddau offeryn y cysylltir John Cale â nhw**

Gallwch ateb drwy'r ffôn, post neu ffacs . . . . .

CYSTDALEUAETH CALE, SOTHACH, 8 RHES VICTORIA, BETHESDA, GWYNEDDLL57 3AG. FFÔN: (0248) 600 578 FFACS: (0248) 600 587

Fe fydd y tri enw cyntaf allan o'r het yn cael copi yr un o'r CD. Diwrnod cau: Rhagfyr 31.1992

### Y Jecsyn Ffeif - Annibyniaeth Barn Crai C004A

"Jarman did it better" meddai y Bobs yn y Cymro, ac wrth gwrs nodiodd pawb eu pennau mewn gorfoledd Bobsaidd. O mor hyfryd yw cael lladd ar fandiau mewn dull sinigaidd di-feddwl. Ond mi aeth ambell rocyr at y gampwaith gyda pharch a brwdfrydedd. Gyda barddoniaeth clodwiw Gareth Sion yn cymysgu'n hawddgar a llenladrad clasurol daeth campwaith ir fei.

Toes yna neb yn debyg i Gareth Sion ar lwyfan. Mae'r wefr o wrando ar farddoniaeth goeth yn cael ei hanner rapio, hanner canu dros glasuron reggae yn troi unrhyw berson normal yn felyn o drachwant am unrhywbeth swreal a rhywiol. Mae'r Wawr Drwy 'Stiniog yn grefyddol ei naws am y llechi llwydlas sy'n cuddio moelni'r Moelwyn a'r Cnicht. "Y gwydr yn gysurus am ei gwefus" meddai Sion ar ol ychydig wrth adrodd darn o'i farddoniaeth gelfydd (bron yn gynghaneddol ar rai adegau) dros gerddoriaeth ddwys gwyntog ddi-derfyn.

Mae'r gan Blodeuwedd yn glasur, yn torri ar draws muriau noeth cerddoriaeth Gymraeg draddodiadol ac yn creu swn hollol newydd sydd yn amhosibl ei ddiffinio. Mae Blodeuwedd yn goncrid yn ei gynhaliaeth o synhwyrau emosiynol sydd yn arwynebol mewn ystyriaeth o hanes a chwedloniaeth y dref a fu ar y tywod ond sydd bellach o dan y lli. Mae dewiniaeth Gwydion dal i greu cerddoriaeth wych.

Yn druenus mae Triongl yn gorffen gyda rant am 'your friendly local Englishman' yn hollol hiliol ac yn ddi-hwyl. 'Mae hi'n Ddu Yma' sydd yn dod a cherddoriaeth dywyll i ganu Cymraeg am y tro cyntaf ers hydoedd. Gyda 'Mae'r Drws yn Gwichian' mae Jecsyn 5 yn cloi casgliad o ganeuon na welwyd mo'u tebyg erioed yn y Gymraeg. Mae'n hen bryd i Sain/Crai roi cyfle arall i Jecsyn 5, efallai na wnaiff werthu, ond hogie bach, chi yw llais y chwyldro, ac mae Gareth Sion ar flaen y gad yn y chwyldro.

**Hen Rebel Fel Fi.**

# DISCOGRAFFI BOB DELYN A'R EBILLION

Un o fandiau gwerin mwyaf llwyddiannus erioed yn y Gymraeg?? Not likely!! Ond rhaid dweud eu bod nhw yn boblogaidd, hynod! Ers dyddiau cynnar y band gyda sesiwns gwerin ar hyd a lled y wlad tan yn ddiweddar pan gymerodd y band ran yng ngŵyl werin Bracknel mae Bob Delyn a'r Ebillion wedi bod yn brysur iawn ym myd y stiwdio (yn rhy brysur yn ôl rhai) yn creu sain record bendigedig, ond, efallai yn methu atgynhyrchu hynny ar lwyfan? Beth bynnag am hynny dyma y gyntaf yn y gyfres o ddiscograffis fydd yn britho tudalennau Sothach o hyn allan.

**1989** = Croeso i'r Crac Cymraeg (tâp 4 cân gynhyrchwyd ganddynt eu hunain)
**1990** = Sgwarnogod Bach Bob (Record hir a ryddhawyd gan Crai)
**1990** = Bob Dolig (tâp 4 cân i glodfori'r Nadolig a sŵn. Rhyddhawyd ar Crai)
**1991** = O'r Gad (C.D. amlgyfrannog, 'Ffair y Bala'- unig gân Bob Delyn. Rhyddhawyd ar Ankst)
**1992** = Sturmant Sothach ('Ffair y Bala' unwaith yn rhagor, ond ganwaith yn well na fersiwn O'r Gad gan mai Soth a gyhoeddodd y gampwaith gerddorol. 0/10)
**1992/3?** = Record hir newydd allan ar Crai, mwy o wybodaeth = gwyliwch y bwlch.

Yn ôl yr heip mae Bryn Terfel yn canu ar y record ac mae Dafydd Iwan yn gandryll o'i go am yr amser stiwdio hir, mae'n debyg y bydd hi'n stoncar...

# Adolygiadau

## SORIANT
## "Tria Welti"
## (CRAI)


Pe byddai cystadleuaeth yn cael ei redeg i ddewis y clawr gorau i gaset gan grŵp Cymraeg, Tria Welti fyddai'n ennill heb os na oni bai - NOT! Lwcus iawn i Soriant fod y gerddoriaeth o safon uwch na'r arlunio.
Casgliad byr o chwe chân sy'n llawn roc a rol trwm(?). A ydi'r gan gyntaf, Dinas Ddisglair, yn son am Gaerdydd tybed? Yn ôl y gân nid yw'r ddinas byth yn cau, gydalot o yfed a lot o hwyl yn y Clwb - na, nid Caerdydd ydi hwnna. Ta waeth, rhaid i mi edmygu unrhyw grŵp sy'n gallu odli 'botel' gyda 'hotel'.
Mae'r ail gân, 'Gwaith' yn swnio fel epic gan Metallica ac er nad ydi'r llais wastad yn glir mae'r gerddoriaeth o safon uchel. I orffen ochr un cawn y gân, 'Un Dewis', gyda Glyn Parrington-Jones yn swnio fel Joe Elliot (adeg yr EP Bludgeon Riffolia) mewn rhai mannau. "Ar ddiwedd y gân / Un dewis sydd ar ôl / Rhaid mynd ymlaen i'r diwedd" - neu i ail ochr y caset.
Mae, 'Ti'n Rhannu', yn son am bobl sy'n cael eu pres wrth eistedd ar eu tinau, ac am bobl sy'n sgio tra bod eraill yn gweithio. Cyfle Soriant i wneud elw o hanesion Fergie efallai? Nesaf cawn y 'ballad' sy'n rhan anhepgor o 'repotoire' unrhyw fand roc trwm, sef, 'Weithiau'. "Wyt ti'n mynd a ngadael i / Mae fy mywyd yn wâg heb chdi / Weithiau dwi'n hapus, weithiau ddim." Rhaid i mi gyfaddef y buasai'n well genna'i pe na bai bandiau o'r math hyn yn cynhyrchu'r fath rwts.




I gloi cawn, 'Brenin Neb', sy'n son am berson sydd a mwy o feddwl o'i hun na neb arall. "Ti'n frenin neb / Meistr ar ddim / Rheoli gwacter mwy na gofod." Dyma gân dda iawn i gloi'r casgliad, er do'n i ddim yn or-hoff o'r geiriau. "Ww, ti'n gwneud fy mhen i fewn" - ym, ddyn.

Os ydych chi'n mwynhau roc cadarn sydd wedi ei grefftio'n dda iawn peidiwch ag oedi cyn prynu'r caset yma. Gobeithio fod Soriant wedi gyrru copi o'r caset i glwb Bogiez yng Nghaerdydd - does ganddynt ddim i'w golli.

**Dyfan Wyn Owen**




## ONE STYLE MDV
## "International Struggle"
## (CRAI)

Mae'r cysylltiad agos rhwng cerddorion Cymraeg a reggae wedi bod yn un cryf ers i Gerain Jarman a'r Cynganeddwyr boblogeiddio'r steil yng Nghymru yn ystod y 70au. Y datblygiad diweddaraf yw i Crai ryddhau caset newydd One Style MDV, cymdogion yr Anhrefn. Casgliad o wyth cân yw International Struggle, o "Everything Is For A Time" i "His Majesty". Yn ôl y blyrb, "Mae One Style MDV yn eu helfen ar lwyfan, yn dynn, yn symud y bobl gyda'u caneuon grymus, cyn newid gêr i ddyfnderau hudol sy'n eich dal wrth ichi wrando ar sŵn y symud." Ar ôl clywed y caset mae'n anodd iawn dadlau. Heddwch a chyd-fyw yw negeseuon blaenllaw y grŵp. "Mae miwsig a geiriau One Style yn ddwfn, ac eto'n syml a deinamig", medde nhw. Digon gwir. Ceir caneuon sy'n dilyn steiliau ska-aidd, yn ogystal a'r riddim fwy 'traddodiadol' a dderbynir fel reggae.
Braf yw gweld y cyd-weithio hyn i ryddhau caset uniaith Saesneg ar label Cymraeg, a hefyd sicrhau lledaenu'r neges One Style MDV i genedl sy'n cydymdeimlo'n gryf gyda'u neges.
Dyma gaset sy'n werth cael gafael ynddo - cyn belled a'ch bod yn hoffi reggae wrth gwrs. Yn anffodus ro'n i newydd brynu "Songs of Freedom" gan Bob Marley ar y pryd, ac anodd (ond anheg) oedd peidio a chymharu.
Mae cylchgrawn yn Gymraeg ar gael sy'n esbonio neges One Style MDV, ac mae hwn a mwy o fanylion ar gael o

# ADOLYGIADAU

Too Much Peace & Quiet, 6 Windsor Court, 194 Lordship Road, Llundain N16 5EY.

**Dyfan Wyn Owen**


## DATBLYGU "Datblygu - Peel Sessions" (ANKST)


Rhyw ddydd cawn ni, y genedl Gymreig, ddeddf iaith newydd, ac wedyn bydd rhaid i labeli recordau fel Ankst gyhoeddi cloriau recordiau dwyiaethog - O! dyddiau braf. Difyr hefyd yw gweld Cwmni Ankst sydd yn gwrthod cydsynio a'r Cyngor Roc oherwydd ei gysylltiadau llywodraethol, yn rhyddhau casgliad o ganeuon gyda chymorth y British Broadcasting Corporation - Deall? Nacydw. mae fy mhen yn troi!

Beth bynnag am hyn oll, mae Peel Sessions Datblygu yn werth ei bwysau mewn aur. Diolch byth am Datblygu! Mae hwn yn ei ddull od ei hun, yn dilyn gyrfa Datblygu o fis Mai 1987 hyd Ionawr 1991. Mae'r casgliad cyntaf yn '87 yn dangos Datblygu ar eu gorau gyda synnau bregus amwys yn gyfeiliant i eiriau diog nerfus D.R.E., gyda 'Nesaf' yn sefyll pen ac ysgwydd yn uwch.

Mae'r ail gasgliad yn arbennig o wych. Dwi'n cofio gorwedd yn fy ngwely yn 1988 ac yn gwirioni ar wrando ar Peelie oedd yn chwarae'r Anhrefn, Chwyldro, Plant Bach Ofnus, Jesus & Mary Chain a sesiwn Datblygu o fewn hanner awr. Mae 'Dros y Pasg eto' yn fendigedig, chwyldroadol. "Oes mwy yn Aberhonddu na bod yn ddiwaith?" medd Dei. Diolch byth na fedr ddawnsio! Mae'r fersiwn o "Cristion yn y Kibbutz" yn ganwaith yn well na fersiwn "Wyau". Hwn oedd cyfnod clasurol Datblygu. "Yn toedden nhw'n ddyddiau da." Wrth edrych yn ôl ar rai o berfformiadau byw Datblygu (y rhain sydd wedi ein camarwain ni), mae Dave yn atgoffa dyn o Shane McGowan gyda'r band yn 'hyper' a'r ceffyl-blaen bron a methu sefyll gan bwyso ar y stand-meic. Trueni achos mae caneuon fel 'Slebob Bywydeg' yn drawmatig, yn malurio pob syniad oedd gan rhywun o Datblygu. Mae'n gân herfeiddiol na fyddai ffan wedi disgwyl ac sy'n tanlinellu swn 'minimalist' Datblygu.

Mae Datblygu yn ddawnus, dwi ddim yn credu bod llawer o ddyfodol iddynt, byddai'n ddibwrpas, maen't ar hyn o bryd yn lladd y 'myth' a gymerodd cymaint i'w greu drwy Hwgrgrawthog a Fi-Du. Trueni. Mae hon yn record pedwar carat ar ugain. Diolch byth fod gan Fflach y weledigaeth ddeng mlynedd yn ôl i recordio a rhyddhau caset cyntaf Datblygu gan agor drysau i'r band mwyaf dylanwadol Cymreig erioed ( -wel, ar ôl yr Anhrefn efallai . . . . . .).




## 4 YN Y BAR "Stryd America" (FFLACH)

Braf iawn yw bod yn dyst i'r trawsnewidiad sydd yn digwydd i ganu gwerin ar hyn o bryd, gyda Bob Delyn a'r Ebillion, Defaid, Moniars a Gwerinos yn dangos y ffordd. Ond, mae 'na dal brinder enfawr o grwpiau ac arddulliau gwerin fel sydd mewn ambell wlad geltaidd arall. Tybed a yw 4 yn y Bar yn llewni bwlch?

A beth sy'n digwydd i Sain?! Tra fod Fflach yn seinio'r Moniars, Defaid, Cusan Tan etc. ac yn trafod gyda Gwerinos etc. Mae Sain yn seinio'r Saith Rhyfeddod. Ar yr un pryd mae Fflach yn dwyn Mabsant, 4 yn y Bar a Bwchadanas oddiar Sain ac felly mae Sain / Crai yn styc efo Ar Log, Calennig, Bob Delyn a'r Ebillion, a Hogia Llandegai!


Bu 4 yn y Bar drwy ganol yr 80au yn creu ac yn rhyddhau sain werin nodyn-berffaith i dwristiaid, o Byth Adra ('84) i

# aDOLYGiADAU

Newid Cynefin ('86) a Seren Nadolig ('85). Y tâp mwyaf arbrofol a wnaethpwyd ganddynt oedd FFIWSIO ddaeth allan yn 1987, ond yn anffodus maent wedi bod yn dawel ers hynny. Y peth sy'n amlwg erbyn hyn yw fod y seiliau wedi eu gosod lawr ar Ffiwsio yng nghyd-destun sŵn Cymreig/Americanaidd. Meddai'r blyrb ar glawr Ffiwsio: "Buom yn meddwl ers tro am droi'n dwylo at gerddoriaeth o America a phwysleisio'r tebygrwydd rhyngddo a cherddoriaeth draddodiadol Gymreig. Pan ymfudodd y miloedd o wledydd Prydain i America aethant a'r miwsig efo nhw, ac mae'n siwr bod 'na ambell i Gymro yn eu plith yn rhywle!"
Llynedd talodd y gwaith gyntaf gyda Tudur Morgan yn cael cyfraniad mawrion fel Donal Lunny a Keith Donald o'r Ynys Werdd, ac un o brif offerynwyr Cymru, Tudur Huws-Jones, i'w gywaith ar hanes Branwen Ferch Llŷr. 'Roedd yr LP honno yn glasur ymlaciol gyda dylanwad Donal Lunny yn amlwg iawn. Er nad yw Donal Lunny ar y CD yma, mae ei ddylanwad yn eithriadol amlwg eto, ac er fod Tudur Huws-Jones ar y record, dyw ei ddylanwad ddim yn glir o gwbl.
Cawn glawr gwych gyda'r cyferbyniad yn damaid i aros pryd am gerddoriaeth gynnes ag oer bob yn ail. Mae'r caneuon am yr Amerig neu am adael cartref yn frith yma: Dowch i'r America, Yr Hen Berlau a Fu, Srtyd America, Ffarwel i Blwy Llangywer, Rhosyn Ola'r Haf a Ffarwel i Aberystwyth.
Does dim byd all guro y bib-isel yn nhrâddodiad Finbar Furey a Davy Spillane, ac fe'i chawn ar Ffarwel i Blwy Llangower a Ffarwel i




Aberystwyth yn ei holl ogoniant. Dyw Ffarwel i Aberystwyth yn ddim ond gwefreiddiol gyda hen sŵn Cilmeri yn atgyfodi o'r bedd, yn wir, hon yw'r unig wir record werin Gymraeg i adael y stiwdio ers blynyddoedd




gyda hiraeth yn treiglo dros bob sill. Mae yma ganeuon am gariad ac am Gymru, oes wrth gwrs, ond peidied neb a chyhuddo'r 4 am anwybyddu realiti'r byd, cawn hanes problemau ieithyddol Môn ar Tu Draw i'r Afon, ac wedyn daw hanes De'r Affrig, Gogledd Iwerddon, Nicaragua a Chymru ar 'Mor Glyd yw'n

**TYNAL TYWYLL**

| OCHR A | OCHR B |
|---|---|
| 1 Mwy neu lai 4'17" | 1 Gweld eisiau dim 3'21" |
| 2 'Y Bywyd Braf' 3'04" | 2 Lle dwi isho bod 3'58" |
| 3 Fyset ti? 2'50" | 3 Diolch am y 15 munud 2'55" |
| 4 Fy nhrwmped fy hun 2'50" | 4 O'r diwedd 3'34" |
| 5 Rhowch eich dwylo . . . 3'20" | 5 Cusanu a dweud 3'09" |
| 6 I ble nawr? 4'07" | 6 Byw talu 1'49" |
| 7 Breuddwyd arall 4'10" | 7 Dinosaur II 2'17" |

Cyfansoddwyd a chynhyrchwyd gan Hall/Morris/Williams

Byd'. 'Folk with a social consience!!'
Mae Waltz Bethan yn hyfryd ac yn cydio i dristwch a hapusrwydd 'Yr Hen Berlau a Fu' i'r dim. Daw Llansteffan a ni yn ôl i diriogaeth 'Branwen' a Lunny, ac osmai gwir yw'r nodiadau sy'n honi mai molawd i bentref Llansteffan yw hon- felly tangnefedd i'r trigolion oll! Dychmygwch Mojo wedi ei gymysgu a Moving Hearts ac fe gewch sain nodweddiadol Tudur Morgan ar yr LP yma, ac ar Branwen gynt.
O.k tydw i ddim yn or-hoff o'r 'medley' 'Migldi-magldi / Cân Crwtyn y Gwartheg / Calan Mai' ac mae yma un gan sy'n ymylu ar ganu gwlad! Ond mae'r gân dair alaw arall, 'Pendyffryn / Adlais / Ymlaen i Leifior' yn fwy na gwneud i fyny am y methiannau. Cyfres o alawon yn wirioneddol i'r 90au, ac uchafbwynt i'r hogia.
Mewn gwirionedd record Tudur Morgan yw hon ar y cyfan, gydag ychydig gymorth oddiwrth y tri arall. Ond nid yw hynny yn tynu dim oddiar yr ysblander gogoneddus.
Record i orffwyso iddi heb os. Diolch byth nad ydy'r rhain wedi datblygu ar yr un llwybr ag AR LOG . . .

**Y DDAFAD GOLLEDIG**

## BEGANIFS
## "Ffraeth"
## (ANKST)

I fod yn hollol ddi-flewyn ar dafod, felly, rhaid yw cyfaddef mai Beganifs yw un o'r grwpiau hynny sydd yn fy nghynhyrfu'n ddi-bendraw wrth feddwl am Cwcwll, a'r perfformiadau byw, a'r dyfodol. Anghofiwch Llygaid Gwydr, mae Beganifs ar lefel uwch erbyn hyn.
Siomedig oedd fy ymateb cyntaf i wrth warando, 'dach chi'n gwybod be' dwi'n feddwl? O wybod am y potensial sydd gan Beganifs efallai fy mod i wedi disgwyl gormod, ond efallai mai 'Uwchben Cymylau' sydd ddim yn gân mor wych i gychwyn LP wych.
O 'Cyffwrdd' ymlaen mae pethau yn gwella a daw

# aDOLYGiADAU

clasuron. Mae 'Cyffwrdd' yn foment o drasiedi wedi ei lyncu ai roi ar dâp. O ddeuawdau y byd, nid yw'n haeddu encore, ond o ddeimensiwn Cymreig mae'r 'ole's' yn odidog. Un gwyn, mae'r gân yn dda, ond mae hi am heneiddio'n fwy sydyn am geisio fod yn rhy trendi (wa wa lu, a gormod o gyfrifiadur dawns). Er hyn, dwi'n hoff iawn o'r 'Big Band Sound' fel 'Starsky and Hutch' (chi'n gwbod) - yn y canol! Dwi'n cofio 'Disgyn' o Fideo 9 (?) a meddwl ei bod yn gan dda ac yn wir mae hon wedi talu ar ei chanfed. Mae Beganifs yn mynd i fy nghasau i am ddweud hyn, ond mae nhw yn swnio fel Aros Mae weithiau, ac mae'r gân yma ar adegau yn disgyn i'r trap yma.
Unwaith eto mae gormod o 'effeithiau' weithiau - fel crafu'r record (ond barn bersonol yw hon).
Mae yma ddwy gân ar ddiwedd bob ochr sydd wedi eu hail gymysgu gan Llwybr Llaethog. Gwastraff amser yn fy marn i, 'I mean', Be' 'di'r pwynt? Dwy i lenwi record! Syniad pwy oedd hwn?
Mae ochr dau yn cychwyn gyda'r glasur 'Cwcwll', sydd yn enwog erbyn hyn ac yn creu awyrgylch parti bendigedig. Ar ôl ochr gyntaf eithaf siomedig, mae 'Cwcwll' yn ffordd arbennig i roi'r caset yn ôl ar y cledrau ac i ddechrau cadwyn o dair cân na welwyd mo'u bath o ran safon yn y Gymraeg ers blynyddoedd.
Daw 'Rhy Dda' a'i gychwyn Sobin a'i Smaeliaidaidd drwy'r 'la la las' i ddangos dawn crefftwaith cyfansoddi aeddfed sy'n berchen gan Beganifs. O'r alaw fyth-wyrdd i'r rap tanllyd sydd yn bytheirio am gyfnod nes cyrraedd y diwedd Sobinaidd unwaith yn rhagor.
Mae 'Neidio i'r Aur' yn un o'r caneuon hynny y bu farw Crist er ei fwyn. "Y Straen o Gario 'Mlaen", meddai'r llais gan adleisio Jarman ar 'Methu Dal . . . . '. Yn wir, petai 30 gorau'r flwyddyn yn dal i fynd ar Radio Cymru mi ddylai hon fod ar y brig, 'Cwcwll' fod yn ail, a 'Rhy Dda' fod yn drydydd! Trueni mawr am y geiriau! Beth ydi ystyr geiriad cytgan 'Neidio i'r Aur', neu geiriau 'Cwcwll' etc. etc. etc.??? Ond dyna'r unig wir drueni.
Dwi ddim yn credu fod Beganifs wedi gwneud yr LP y gallen nhw yma, ac mae'r potensial i fod yn 'anferth' yn dal i'w dapio, ond os y gwnaiff unrhyw fand Cymraeg arall ddod yn agos eleni mi fydd yn wyrth! Ceisiwch wrando ar 'Neidio i'r Aur' heb ganu!
Mae'r swn Primal Screamaidd yn tyfu!
Cymerwch hyn lawr: Hon yw record orau y flwyddyn hyd yma. Mae Beganifs, gyfeillion yn cyfansoddi alawon sy'n uwch na'r haul. Ond, nid hanner beth a ddisgwylid!
7/10

## TYNAL TYWYLL "Lle Dwi Isho Bod" (CRAI)

O.k. be sgynnon ni ? Caset 14 can ar label Crai. Cynnwys? Serch, rhyw a rhamant.. Ar y clawr? Llun Sgooby Doo a'i fet pen goch gwirion yn dawnsio . . . "Sgooby, Sgooby Doo . . ."
O'r dechrau 'Mwy neu Lai' mae'r awyrgylch 'nostalgic' yn swynol gyda llais Ian Morris yn canu melodi uwchben cor cefndirol o glychau ysgafn o gordiau gitars 'jangli' mewn riddim ymlaciol yn ateb eu gilydd yn ddeniadol, a llawn hiraeth, yn y dull sy'n gyfarwydd i ddilynwyr Tynal Tywyll, ac i bawb arall o ran hynny, erbyn hyn.
Mae'r saith trac cyntaf yn llithro heibio ac yn cyrraedd yr uchafbwynt yn y 'teitl trac' 'Lle Dwi Isho Bod' yr un sy'n yn mynd:
"Allan o bethau bach mae pethau mawr yn dod
A dwi'n gwybod lle dwi isho bod
Ers cyfarfod a ti fy ffrind
Ti a fi - y dyn mawr a'r siwgwr mel "
Tynal Tywyll ar eu gorau.
Mae'n dda gweld y clasuron 'Byw Talu' a 'Dinosaur II' yma hefyd. Mae'r geiriau cynnil a dull di hafael ein 'Duw Rhyw' o'i canu yn ychwanegu at bleser yr holl brofiad.
Does na ddim sypreisus, na dim sy'n annisgwyl ar y caset. Efallai mai dyma'r gwendid, os gwendid hefyd. Mae safon y cynhyrchu trwyddo yn slic, safonol ac yn gweddu'n llwyr i'r cynnwys. Mae yma naws hawdd, rhwydd a hollol 'laid back', gyda'r caneuon yn llithro o un i'r llall fel siwrna' di-drafferth mewn car moethus ar ffordd braf wledig un hwyrnos haf. Gyda dy gariad (wrth gwrs) yn gwenu ac yn gynnes yn gysur i dy galon. Tydi bywyd yn braf! (yn yr haf?)

**DIPLODOCUS**

## DATBLYGU "Maes E (Cnwch) " LLWYBR LLAETHOG & IFOR AP GLYN "Ni Fydd Y Chwyldro Ar Y Teledu, Gyfaill" (ANKST)

Y sengl saith modfedd 'ola Gymraeg??! - No Way! Eitem casglwyr, rhywbeth ma' pob Ll.Ll./Datblygu 'freak' wedi bod yn aros am. Dim ond 1000 o gopie gynhyrchwyd mae'n debyg, ac os golloch chi noson claddu REU, gewch chi drafferth mawr i gael gafael ar y sengl yma unrhywle. Mae Dave yn rhyddhau ei holl emosiwn yn "Maes E", fel ci unig ar goll, yn crio am ei fam. Mae'n llwyddo i greu rhywbeth prin iawn, sef cân serch gan Datblygu sy'n wirioneddol tyfu arnoch.
Troi'r recored drosodd, i glywed 'spaced-out cosmic cadets', Llwybr Llaethog, gyda help Ifor Ap Glyn ar y focals. Mae'n debyg taw Gareth Potter a'i grwp newydd oedd yn wreiddiol i fod ar yr ochr yma. Llwybr Llaethog a Ifor Ap Glyn - 'Team-up' gwych, sy'n llwyddo i greu campwaith digon satirical a dweud y lleia. "Fydd y chwyldro ddim yn ail ddarlleniad . . ." rantia Ifor, cyn symud 'mlaen i son am yr holl bethau anhebygol eraill fydd ddim yn digwydd. Os dim copi da chi . . . benthycwch e gan ffrind, achos ma'r sengl yma'n'f . . . . g' anhygoe!!! Blincin hec!
O.N. Peidiwch credu heip Ankst taw dyma'r sengl 7" ola yn y Gymraeg.

**MIHANGEL YR ANGEL**

# a D L Y G i A D A U

## JOHN CALE "Fragments Of A Rainy Season" (Hanibal HNCD 1372)

Mae'r clawr yn dangos sut gymeriad ydy Cale. Does yma ddim llun, dim lliwiau naff, dim ond clawr gwyn ac ysgrifen caligraphic yn ailadrodd un o ddatganiadau mawr William Shakespeare:

"Banquo : It will be rain tonight.
1st Murderer : Let it come down."

Dyna ddechrau gwirioneddol cwl i c.d. sydd yn glyfar ac yn graff, yn feddyliol, geiriol, alawol ac, heb swnio'n naff, yn drewi o ddylanwad Cymru a'r Gymraeg.

Tydi John Cale ddim erioed wedi cael ei gyfri'n fardd, ond yma fe welir ei wir dalent gyda'r geiriau ochr yn ochr a'r gerddoriaeth. Ers y record ddiwethaf, "Paris S'eveille", mae Cale wedi bod yn dawel iawn, ond yma fe welwn gynnyrch y tawelwch hwn. Record fyw ydy hon sydd wedi ei recordio ym Mharis, Amsterdam a Stutgart, o flaen cynulleidfaoedd gwylly ac hyderus. Mae'n record, bron iawn felly, o ganeuon gorau Cale ar hyd yr amser ers y dyddiau cynnar gyda'r Velvet Underground.

Braf ydy gweld Cale yn cychwyn hon, efallai un o'i recordiau gorau erioed gyda can Gymreig. Mae "A Child's Christmas in Wales" yn dod o'i gampwaith roc-baroque 'Paris 1919' ac mae'n hyfryd. Yn dwyn pytiau o waith clasurol Dylan Thomas gyda'i ddisgrifiadau o'r capeli Cymreig yn gymysg a'r gwin a'r parti. Efallai y gellir beirniadu Cale, fel Dylan Thomas, o fod yn ramantydd drwy gryfhau'r ddelwedd sterioteip o Gymru. Mae'r gwartheg yma, canhwyllau a chlychau y capel, mae'r "Hallelujah crowd" yma, mae sosialaeth y cymoedd yma ("Take down the flags of ownership"), mae ei fam yma yn gartrefol, ac fe geir fel y diweddglo y llun hyfryd chwedlonol hwnnw o ddrysau pob tŷ yn y pentref ar agor heb ofni trosedd o fath yn y byd : "Good neighbours were we all".

Mae yma nifer fawr o ebychiadau Cymreig yma. Mae yma gân gyfan am y 'Wild West' ("An European version") sydd yn drewi o ramantiaeth Gymreig. Wedyn ynghanol cân "The Ship of Fools" cawn hanes y llong ar ei thaith drwy borthladdoedd mwya'r byd, ac yna cawn : "By the time we got to Swansea It was getting dark."

'Welshman of sorts' meddai rhywun am Cale, ac mae hynny yn dod drosodd yn amlwg iawn gyda'i fynych son am drefi Cymreig. Mae dwy ar bymtheg o'r ugain cân sydd yma yn syml gyda llais Cale yn cael ei gyfeilio ganddo'i hun ar y piano. Mae'r ddawn byseddu'r eifori yn wych, tra yn y dair arall cawn gitâr acwstic effeithiol i ddilyn llais aeddfed felfedaidd Cale.

Mae tair o'i ganeuon ar eiriau Dylan Thomas yma i gydfynd a chân gan Leonard Cohen, "Hallelujah", sy'n gorffen y casgliad, ac wrth gwrs, y glasur gan Elvis Presley, "Heartbreak Hotel", sydd yn felltithiol ac yn araf. Mae'n troi can Elvis yn emyn ddiwledig i ddigofaint.

Anaml y bydd recordiau Cale yn methu plesio y dyddiau hyn, ac mae 'Fragme nts of a Rainy Season' yn gampwaith gelfyddydol glasurol. Y Cymro mwyaf cŵl erioed heb os.

"Banquo : It will be rain tonight.
1st. Murderer : Let it come down."

**Go iawn**

9/10




## SYNAU TREIDDGAR SOTH TACHWEDD

Yr hyn a wrandawyd arno yn swyddfa Soth y mis hwn

1- Gorkys Zygotic Myncis - Peiriant Pleser

2- Vaffan Coulo - Sel Owt

3- Diffiniad - D.I

4- John Cale - Fragments of a Rainy Season

5- Llesmair - f2f

# Annwyl Sothach! . . . . . . . . . . . .

Annwyl Sothach (!) (?)

Dwy yn ysgrifennu atoch i ddatgan fy nicter ar ol darllen "cyfweliad" y Manic Street Preachers yn y rhifyn cyn diwethaf. Mae'n dda i gael gweld grwp sydd ddim yn canu yn Gymraeg - ond sy'n dod o Gymru, yn cael bod yn Sothach! . . . OND!, ac ond fawr iawn. - Mae gan y Manic Street Preachers agwedd afiach a hiliol am yr iaith Gymraeg, a syniadau negyddol am y sin Gymraeg . . . "Mae unrhyw un sy'n meiddio gwneud peth mor echrydus a chanu yn Gymraeg yn ffosil, sy'n bwyta glo, yn shaggio defaid ac yn canu mewn iaith farw hen ffashwn. Mae rhyun sy'n meiddio dim ond cydnabod ei bod yn Gymro / Cymraes yn ffasgwyr hiliol ac eithafol" - dyma ydy agwedd pathetic o gul, naif ac imperialaidd y Manic Street WANKERS. Cymry (fel yr hunan bwysig M.S.P.) ydy'r Brits mwya . . . cachgwn di-asgwrn cefn sydd a cywilydd o'i gwlad genedigol. Dyma'r bobl sydd wir yn gyfrfol am deimladau hiliol - 'Shit stirers . . . I hope that the Manic Street Wankers are reading this now, if you are, then F . . k Off you spineless, ignorant racist, pretentious Nazi BRITS, you sad TWATS. Nid ymosodiad ydy hwn ar Sothach!, rwyn canmol chi (am unwaith!!) am gyhoeddir cyfweliad, fel gall darllenwyr y cylchgrawn weld pa mor pathetic a trist ydy agwedd rhai Cymru am ei mam wlad. Wel, be chi'n disgwyl wrth grwp sy'n cyfadde ei bod nhw yn 'Media Sluts' ta beth? . . . .x x x

Vernon Froggart, Caerdydd

THE BRITISH EMPIRE (ha, ha, f . . . . .g ha)

Annwyl Sothach!

Gobeithio fod golygyddion Sothach! yn dda am ddatrys problemau, achos mae gen i broblem FAWR!

Mae fy ffrind wedi syrthio mewn cariad efo'r seren Hughie White (o Neu Unrhyw Declyn Arall) a tydi hi ddim yn gwybod sut i fynd o gwmpas i ddweud wrtho. Be neu di de!

Tydi hi ddim yn gallu meddwl na siarad am neb na dim arall a mae'n dechrau f'anfon i fyny'r wal! PLIS PLIS GALLWCH EI HELPU?

I gychwyn, buasai'n syniad da cael poster lliw ohono yn Sothach!

Yn ddiolchgar

Ms Peaches x x x

ON Dwi'n meddwl fod Sothach yn bril, ond mi ddylech gael mwy o gystadleuthau (croes air a.y.b) a tudalen datrus problemau rhyw a serch.

ANFONWCH EICH LLYTHYRAU I :

**ANNWYL SOTHACH!**

**8 RHES VICTORIA, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3AG**

MAE CROESO I CHI GAEL CYHOEDDI EICH LLYTHYRAU YN DDI-ENW OND MAEN RHAID CYNNWYS ENW A CHYFEIRIAD CYWIR GYDA UNRHYW GYFRANIAD.

## FFIDBAC: SOTH!

Ie, diolch am dy lythyr Vernon Froggart (llythyr jen am chenj, fe dderbyniwyd enw a chyfeiriad y llythyrwr), ie, wel fe gath Soth lwyth o ymateb i gyfweliad y Manics yn rhifyn Medi; roedd rhai yn credu mai cyfweliad ffug oedd o, 'di hyn ddim yn wir, aeth James Bradfield hyd-yn-oed i'r drafferth o ffonio Huw Dylan yn hwyr un noson er mwyn trafod y cyfweliad, braint James Bradfield wrth gwrs. Yr ymateb pennaf a hynny gan bobol ddylai wybod yn well, (na'i ddim enwi neb ond mae pobol amlwg iawn yn y SRG o dan sylw fama) oedd fod y cyfweliad yn amherthnasol. Mae dweud fod un o'r grwpiau roc enwocaf i ddod allan o'r cymoedd ers erioed yn "amherthnasol" yn ymylu ar y gwallgof. Na'i esgusodi'r peth ar sail 'moral high ground' culni rhai Cymru Cymraeg. Falle eich bod chi'n anghytuno gyda phennaeth cwmni coedwigo yn Brazil, on dydi cyfweliad hefo fo ddim yn amherthnasol. Wrth gwrs ymgais arall oedd yma gan y Manics i'n siocio a'n dychryn. Mewn gwirionedd er gwaethaf rantio Froggart, dwi'n credu mae'r ymateb cyffredinol ymysg y Cymry fydde 'blase' llwyr i sylwadau'r Manics. 'Da ni i gyd wedi clywed hyn o'r blaen. Dwi'n siwr tase'r Manics wedi dweud rhywbeth cyfatebol yn Lloegr byddai'r sylwadau wedi creu 'controversy'. A dyma pam fase antics fel carfio braich ddim yn rhoi y math o lwyddiant arwynebol yng Nghymru. Ydi'r Cymru ddim yn blase i ymosodiadau ar yr laith? Onid ydi sylwadau Richie just yn arffwysol o boring ac arferol inni?. Mae'r cyfweliad yma yn hynod berthnasol. Pam fod cantorion o wledydd eraill celtaidd yn mawrygu eu hacen a'i traddodiadau? Yn aml er mwyn llwyddo, a chantorion enwog Cymru (gweler Tom Jones Western Mail 27 Hydref 1992) yn teimlo gorfodaeth i ddirmygu cenedlaetholdeb eu gwlad. Ein cywilydd cenedlaethol, boring, boring. Mae rhywun yn cael eu atgoffa o grwpiau sy'n son am ganu'n Saesneg...Ar un ochr mae'n drist gweld hogs Cymraeg yn cael eu defnyddio gan y wasg Saesneg fel cachu yn y ffordd yma. Ond dyna'r agwedd biwritanaidd o'r neilltu. Ydio ddim yn well ganddoch chi weld pynciness up front y Manics yn hytrach na 'chydymdeimlad Mike Peters?.O rhan grwpiau saesneg eu hiaith yng Nghymru ac o Gymru, ac sydd yn berthnasol i Gymru (pethe fel roc trwm a'r ddawns sin) gwyliwch y gofod hwn ffrinds, mae SOTH bellach yn gyhoeddiad rhyngwladol, interfydysawl oesoesoedd, mae grwpiau Cymru en parr ac yn well safon na unrhyw drifel angloamericanaidd gaiff ei luchio aton ni. Dwi'n synnu fod cyfweliad y manics wedi bod mor amhoblogaidd fel cysyniad (yn hytrach na barn Froggart sy'n eangfrydig ac yn ymosod ar y cynnwys), mae rhai pobol yng Nghymru mor uffernol o gul, does ganddyn nhw ddim isio clywed barn pobol eraill. Wel SOTH deud tyff.

# CATALOG ROC CYTGORD

CATALOG ROC CYTGORD

AIL GYFNOD - **NUANCE 12"** £4.45 (R) (E.P.)
- **ISOMERIG** £2.55 (C)

AIL SYMUDIAD - **RHY FYR I FOD YN JOCI** £5.10 (C)

ALAN GINSBERG - **CEGIN SARON** £4.99 (c)

AMLGYFRANNOG - **BYW YN BRAF YN GIBRALTAR** £4.80 (C)
- **DYMA'R RYSAIT** £2.05 (EP)
- **GWYRDD** £4.70 (C)
- **PWY FYDD YMA MEWN CAN MLYNEDD** £3.60 (C)
- **PENROC 1** £5.10 (C)
- **MERCHED YN BENNAF** £5.65 (C)
- **HEN WLAD FY NHADAU** £6.10 (C)
- **HEI! MR DJ** £6.65(C) £10.65 (CD)
- **TORRI'R SGRIN** £1.55 (C)
- **O'R GAD** (C) £6.99
- **O'R GAD** (CD) £10.50

ANHREFN - **SOFT LIGHTS & LOUD GITARS** £4.85 (LP)
- **BE NESA 89 7"** £2.05 (S)
- **DEFAID SKATEBOARDS A WELLIES** £4.85 (L.P.)
- **BWRW CWRW** £4.85 (L.P.)
- **BWTLEG POWERHAUS** £3.05 (R)

BEGANIFS - **LLYGAID GWYDR** £4.10 (C)
- **FFRAETH** £6.10 (C)

BOL - **BOL NADOLIG** £2.55 (C)
- **YN EICH GWYNEB** £2.05 (C)
- **BOL** £2.05 (C)

BRODYR - **CYMYNRODD** £6.15 (C)

BYD AFIACH - **BOBS NARSISYS YUM, YUM, YUM** £3.70 (C)
- **SLOTH** £2.85 (C)
- **FINE FIGURE OF A MAN** £2.75 (C)
- **SLAP GO HEGAR** £4.60 (C)
- **CROESHOELIWCH FI** £1.55 (C)

CANOL CALED - **YR HAWL I FYW** £2.05 (S)

CEFFYL PREN - **ENNILL DROS GYMRU 12"** £3.80 (S)

CELT - **CYNFFON** £4.00 (C)

CERRIG MELYS - **CERRIG MELYS** £3.60 (C)
- **EIN DWYLO ALLTUD** £4.60 (C)
- **CAU DY LYGAID** £3.10 12"

CUT TUNES - **POBL Y NADROEDD** £3.60 (C)

CWRW BACH - **TAMEIDIAU** £2.55 (C)

CYNGHORWYR - **FFIDLAN** £5.10 (C)

DATBLYGU - **BLWCH TYMER TYMOR** £4.70 (C)

DEREC BROWN - **HANES Y BYD** £5.10 (C)

DIEMS - **GOBAITH** £4.70 (C)

DYFED EDWARDS - **DECHRAU** £2.45 (C)
- **SWN TAWEL TRISTWCH** £2.05 (C)

DYLAN DAVIES A'R CRIW - **DYLAN DAVIES A'R CRIW** £4.10 (C)

EIRIN PERYGLUS - **TROSGYNNOL** £3.40 (C)
- **MERTHYR** £2.05 (S)
- **EIRIN PERYGLUS 12"** £3.40 (S)

FFA COFFI PAWB - **ALLAN O'I PHEN 12"** £3.40 (S)
- **FFA COFFI PAWB 12"** £3.60 (S)
- **CLYMHALIO** £6.10

FFA COFFI PAWB / TERRY WAITE - **FFLECSI** £1.00 (S)

FFLAPS - **AMHERSAIN** £4.60(LP)
- **MALLTOD** £5.95 (LP)
- **DILYN DYLAN** £2.05 (S)

GERAINT GRIFFITHS - **ARARAT** £6.15 (C)

GERAINT LOVGREEN - **OS METS** £6.15 (C)
- **ENLLIB** £5.10 (C)

GWEFRAU - **GWEFRAU 12"** £4.10 (12")

GWRTHEYRN - **SYCH AR Y SUL** £6.15 (C)

HEB GARIAD - **CANEUON O'R DE** £2.05 (S)

HEFIN HUWS - **HEFIN HUWS** £4.10 (C)
- **CAE CHWARAE** £3.50 (C)

HUW CHISWELL - **RHYWBETH O'I LE** £6.15 (C)
- **RHYWUN YN GADAEL** £6.15 (C)

JESS - **HYFRYD I FOD YN FYW** £5.99 (C) £9.50 (CD)
- **JESS** £3.10 (C)
- **JULIA GITAR** £2.05 (S)
- **Y GATH** £3.10 (C)

JINA - **Y LLWYBR** £3.10(C)

JOHN GRINDELL - **PAID A GADAEL CYMRU** £4.10 (C)

LLE ANGHYSBELL - **TRYLEDIAD** £4.60 (C)

LLWYBR LLAETHOG - **PAM 12"** £3.60 (EP)

LL.LL. v TY GWYDR MCDRE - £6..10 (C) a (R)

LMR - **BYW YMYSG Y FWLTURIAID** £4.70 (C)

GERAINT LOVGREEN - **OS METS** £6.15 (C)
- **ENLLIB** £5.10 (C)

MABSANT - **COFEB** £6.15 (C)
- **TON GRON** £6.15 (C) £9.50 (CD)

MAE FI GYN - **GARIJAM** £2.65 (C)

MAFFIA - **AWE FO'R MICSAR** £4.60 (C)
- **DA NI'M YN RHAN** £5.10 (C)
- **TWTHPEST OSON FFRENDLI** £4.85 (C)

MISTECS - **POBL DIGWILIDD** £4.60 (C)

MOJO - **RHYDD RHYW DDYDD** £6.15 (C)
- **AWN YMLAEN FEL HYN** £6.65(C)

NEIL ROSSER A'R PARTNERIAID - **SIONI BOB OCHR** £4.60 (C)
- **FFORDD NEWYDD GYMREIG O FYW** £2.55 (C)
- **OCHR TREFORUS O'R DRE** £6.10 (C)

NEU UNRHYW DECLYN ARALL - **NEU** £3.40 (C)

NID MADAGASCAR - **LLEDRITH LLIW** £3.60 (12")

NYAH FEARTIES - **BARASSIE** £2.05 (S)

PLANT BACH OFNUS - **AWST / LLWYD** £2.05 (S)
- **ISHARMONIG 12"** £3.75 (E.P.)
- **SYMUDIAD YMDDANGOSOL Y LLEUAD** £4.10 (C)

POP POSITIF - **POP POSITIF** £2.05 (S)

PRY CLUSTIOG - **FY NGWLAD FY HUN** £5.10 (C)

PYW DALL - **DIM HEDDWCH** £3.60 (C)

RAY JONES - **MILLTIROEDD** £5.10 (C)

SIAN JAMES - **CYSGODION KARMA** £6.15 (C)

SOBIN A'R SMAELIAID - **SOBIN A'R SMAELIAID** £9.70 (CD)

STEVE EAVES - **SBECTOL DYWYLL** £5.50 (C)
- **TIR NEB** £2.75 (C)
- **PLANT POBL ERAILL** £6.65 (C)

TRADDODIAD OFNUS - **RHIF 2 12"** £3.80 (EP)

TY GWYDR - **YR UNIG ATEB** £4.10 (12")
- **EFFEITHIOL** £6.10

TYNAL TYWYLL - **JACK KEROUAC** £2.05 (S)
- **BYW TALU** £3.50 (C)
- **TELYN WEDI TORRI** £2.05 (S)
- **TYNAL TYWYLL** £2.05 (S)

U THANT - **BUGEILIO** £5.60 (LP)
- **U THANT 12"** £4.00 (EP)

WENFFLAM / MASNACH RHYDD
- **WENFFLAM / MASNACH RHYDD** £4.10 (C)

Y CELFI CAM - **BLE AETH HELMUT?** £2.00 (C)

Y CYRFF - **LLAWENYDD HEB DDIWEDD** £6.10 (LP) (C)
- **CYMRU LLOEGR A LLANRWST 12"** £4.85 (EP)
- **HWYL FAWR HEULWEN** £2.05 (EP)
- **AWDL O ANOBAITH** £4.60 (C)
- **YR HAINT** £2.05 (S)
- **PUM MUNUD** £2.05 (S)

Y JECSYN FFEIF - **ANNIBYNIAETH BARN** £5.10 (C)

Y LLYGAID - **Y CASET DU** £3.40 (C)

YR ORSEDD - **X** £3.40 (C)

CRYSAU T **EIRIN PERYGLUS** - £6.15

**BAMBW** - £5.60 **Y FFLAPS** -£6.15 **12:45** - £3.10

***PRISIAU YN CYNNWYS TRETH AR WERTH 17.5% A CHLUDIANT***

Amgaeaf siec / archeb post yn daladwy i **CYTGORD**
am £................ fel tâl am.......................................

.....................................................................

ENW.................................................................

CYFEIRIAD.........................................................

.....................................................................T.xi.

**Anfonwch i : CYTGORD, 8 RHES VICTORIA, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3AG.**

***FE ALL ARCHEBION GYMERYD HYD AT 21 DIWRNOD I'CH CYRRAEDD!***

# Shakespeare - ar ei newydd wedd, yn iaith y nefoedd.

SHAKESPEARE: Y DRAMAU WEDI'U HANIMEIDDIO

*NOS FAWRTH 8.00PM*

*CYDGYNHYRCHIAD RHYNGWLADOL AR GYFER S4C*



S4C